NEATH PORT TALBOT COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT

# Adroddiad Perfformiad Cynllunio Blynyddol 2017-18

Nicola Pearce - Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd

# ACLl Castell-nedd Port Talbot
ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNLLUNIO BLYNYDDOL (PCB) - 2017-18

## RHAGAIR

Gan mai fi yw’r Aelod Cabinet dros Adfywio a Datblygu Cynaliadwy, fi sy'n gyfrifol am gyflawni'r swyddogaeth Gynllunio yng Nghastell-nedd Port Talbot. Ni ellir tanbrisio cyfraniad y gwasanaeth Cynllunio i sicrhau dyheadau adfywio ehangach y Cyngor, yn enwedig wedi cyfnod estynedig o gyni a'r problemau rydym ni'n eu hwynebu ar hyn o bryd ac y byddwn ni'n dal i'w hwynebu o ganlyniad i Brexit.

Trwy'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd a phenderfyniadau Rheoli Datblygu unigol, rydym ni'n creu rhywle lle mae pawb yn cael cyfle cyfartal i fod yn fwy iach, hapus, diogel a ffyniannus. Bydd y cyfrifoldebau a'r dogfennau statudol hyn hefyd yn darparu sylfaen ar gyfer gallu'r Cyngor i gyflawni ei Nodau Llesiant, a fydd yn eu tro yn gwella iechyd a llesiant ein cymunedau, ac yn sgîl hynny, ansawdd bywyd pawb.

Y Cynghorydd Annette Wingrave, Aelod Cabinet dros Adfywio a Datblygu Cynaliadwy.

## Y CYD-DESTUN

## Y CYD-DESTUN DAEARYDDOL

Mae Castell-nedd Port Talbot wedi'i lleoli ar yr arfordir rhwng Dinas a Sir Abertawe i'r gorllewin a Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'r dwyrain. Rydym hefyd yn rhannu ffiniau a nodweddion gyda Sir Gaerfyrddin, Powys, Rhondda Cynon Taf a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r Awdurdod hefyd yn ffurfio rhan o Ddinas-ranbarth ehangach Bae Abertawe, a dyma'r awdurdod cyswllt rhwng Gorllewin a De Cymru. Yn dilyn ei ddynodiad yn gynharach eleni, mae'r Sir hefyd yn gartref i'r Parth Menter mwyaf yng Nghymru, y cododd yr angen amdano o'r dirywiad economaidd yn y diwydiant dur, a fu yn ei dro yn peryglu gweithrediad parhaus gwaith dur Port Talbot, sef y cyflogwr mwyaf yn yr ardal leol. Rhagwelir y bydd y dynodiad hwn yn rhoi hwb i ddatblygiad economaidd o fewn yr ardal leol, a fydd yn arwain at fanteision deilliadol i'r rhanbarth ehangach.

Mae gan y Fwrdeistref Sirol boblogaeth breswyl o 139,800 (Cyfrifiad 2011), mae'n cwmpasu ardal o fwy na 44,217 hectar, a gellir rhannu nodweddion ffisegol y Fwrdeistref Sirol, yn fras, i'r ddau faes canlynol; coridor yr arfordir a'r cymoedd.

Mae coridor yr arfordir yn cwmpasu llain arfordirol gymharol gul sy'n estyn o amgylch Bae Abertawe, ac yno y lleolir y prif ganolfannau poblogaeth, cyflogaeth, a choridor yr M4. Mae prif drefi ac aneddiadau Castell-nedd a Phort Talbot yn dal yn brif ffocws ar gyfer adeiladu tai, a hynny yn y farchnad breifat ac ymhlith landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

Nodweddir y cymoedd gan dirlun deniadol dyffrynnoedd afonydd, wedi'u gwahanu gan lwyfannau ucheldir a mynyddoedd. Maent yn wledig eu natur ac yn cynnwys cymunedau ar wasgar ar eu hyd. Er bod nodweddion a hunaniaeth unigol gref i'r cymoedd unigol, maent yn rhannu nodweddion a phroblemau cyffredin. Yn hanesyddol, mae adeiladu tai ar raddfa fawr wedi cael ei gyfyngu'n bennaf i Bontardawe a phen uchaf Cwm Tawe.

## Y Cyd-destun Corfforaethol

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd yn rhan o Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd, sef un o'r pedair Cyfarwyddiaeth yn y Cyngor, y mae pob un ohonynt yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr. Yn ogystal â Chynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, mae tri Phennaeth Gwasanaeth arall yng Nghyfarwyddiaeth yr Amgylchedd, sy'n cynnwys Pennaeth Gofal Strydoedd, Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth a Phennaeth Eiddo ac Adfywio. Bydd pob un o'r Pedair Cyfarwyddiaeth yn gweithio tuag at gyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol canlynol, fel y dangosir yn y Cynllun Corfforaethol:

### Amcan Llesiant 1 CNPT – Gwella llesiant plant a phobl ifanc.

"Mae pawb o'n plant a'n pobl ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, er mwyn iddyn nhw allu bod y gorau gallan nhw fod."

### Amcan Llesiant 2 CNPT – Gwella llesiant pob oedolyn sy'n byw yn y fwrdeistref sirol.

"Mae pawb yn cyfranogi'n llawn ym mywyd y gymuned - yn gymdeithasol ac yn economaidd"

### Amcan Llesiant 3 CNPT - Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl.

"Bydd bwrdeistref sirol Castell-nedd Port Talbot, yn ei chyfanrwydd, yn lle iach a bywiog i fyw, gweithio a mwynhau amser hamdden ynddo."

### Amcan Llesiant 4 CNPT - Llywodraethu ac Adnoddau (yn croestorri) - Sicrhau bod gwaith y cyngor yn cael ei reoli er mwyn mwyafu'r manteision hirdymor i ddinasyddion Castell-nedd Port Talbot.

Mae'r amcanion yn eang iawn er mwyn ymateb i'r 7 nod llesiant a ddiffiniwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, yn llifo o'r amcanion hyn mae Cynlluniau Gweithredu Corfforaethol manwl a Chynlluniau Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau sy'n cysylltu â holl feysydd gwasanaeth y cyngor, gan gynnwys Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd.

Er bod y swyddogaeth Gynllunio yn rhan o faes gwasanaeth ehangach, bydd yr Adroddiad hwn yn ymdrin yn bennaf â'r swyddogaethau cynllunio traddodiadol a gyflawnir gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot.

## Y Gwasanaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd

Fel y nodwyd uchod mae'r gwasanaeth wedi cael ei estyn ers Ebrill 2016 yn dilyn ei gyfuno â gwasanaeth Iechyd Amgylcheddol a Safonau Masnach. O ganlyniad i'r cyfuno hwn, crewyd y strwythur canlynol (hyd at lefel y drydedd haen) fel a ganlyn:

*Diagram*

Mae'r gwasanaeth ehangach hwn yn gweithio ar y cyd i sicrhau'r  canlynol:

### Nod

Sefydlu'r fframwaith ar gyfer ffurfio, creu a chyflawni cymunedau cynaliadwy, iach, diogel o ansawdd, i fyw a ffynnu ynddynt.

I sicrhau'r nod hwn, ceisir cyflawni'r weledigaeth ganlynol:

### Gweledigaeth

Gwasanaeth rhagweithiol a flaenlwythwyd lle mae pawb yn cydweithio i gyflawni diben a rennir, sef hybu a chreu mannau diogel, iach a chynaliadwy i fyw a gweithio ynddynt. Bydd hyn yn ein galluogi i gyflawni'r flaenoriaeth gorfforaethol, sef sicrhau ffyniant i bawb, a hynny mewn ffordd well, symlach a rhatach.

### Gwerthoedd

Mae mabwysiadu gwerthoedd cadarn yn allweddol i sicrhau'r nod a'r weledigaeth uchod. Nod y gwasanaeth newydd hwn yw gweithio ar y cyd i fwyafu'r wybodaeth a'r dysgu a rennir, gan wella effeithlonrwydd. Ein bwriad yw helpu ein gilydd i sicrhau gwelliant parhaus, a gwella'r cyfathrebu yn fewnol ac â'n cwsmeriaid allanol. Byddwn ni'n gweithio mewn amgylchedd agored ei natur, a bydd cysondeb, tryloywder a chydraddoldeb yn ganolog i'n holl egwyddorion gweithredu. Byddwn ni'n lleihau gwastraff o fewn ein gwasanaethau, gan ganolbwyntio ar ychwanegu gwerth a gwneud yr hyn sy'n bwysig i'n holl gwsmeriaid.

Mae'r gwasanaethau a gynigir gan y Gwasanaeth Cynllunio traddodiadol o fewn y strwythur cyffredinol hwnnw fel a ganlyn:

## Rheoli Datblygu

#### Ceisiadau Cynllunio

Mae'r tîm yn delio gyda'r holl geisiadau a gyflwynir o dan ddeddfwriaeth gynllunio gynradd ac eilaidd, gan gynnwys Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Y prif fathau o geisiadau yr ymdrinnir â hwy yw:-

- Ceisiadau Cynllunio (llawn, amlinellol neu 'faterion a neilltuwyd')
- Caniatâd Adeilad Rhestredig
- Caniatâd Ardal Gadwraeth
- Ceisiadau am Dystysgrif Defnydd Cyfreithlon neu Ddatblygiad (Presennol ac Arfaethedig)
- Hysbysebion

- Mwynau
- Gwastraff
- Gwaith ar Goed a Amddiffynnir
- Caniatâd Sylweddau Peryglus
- Perthi Uchel
- Clirio Gwrychoedd

## Cyngor Cyn-Ymgeisio

P'un a yw hynny trwy ddilyn y llwybr statudol neu anstatudol mae'r tîm yn darparu gwasanaeth cyn-ymgeisio i ymgeiswyr/ddatblygwyr, sy'n rhoi cryn bwys ar ddarparu'r cyngor gorau posibl i ddarpar ddatblygwr/ymgeisydd cyn cyflwyno cais cynllunio ffurfiol. Mae swyddogion yn ceisio hybu datblygiad o ansawdd uchel ac yn defnyddio'r gwasanaeth cyn-ymgeisio i flaenlwytho'r broses ddatblygu, ac felly gyflymu'r broses gynllunio ffurfiol.

## Gorfodi

Mae'r is-adran Gorfodi yn ymdrin â chwynion ynghylch achosion honedig o dorri'r rheolau cynllunio, sy'n ymwneud yn bennaf â'r canlynol: -

- Gwneud gwaith adeiladu heb ganiatâd, neu ddatblygu heb gydymffurfio â chynlluniau cymeradwy
- Methu cydymffurfio â'r amod(au) a bennwyd ar gyfer caniatâd cynllunio
- Newid defnydd tir neu adeiladau heb ganiatâd
- Tir Blêr
- Gwaith heb ei awdurdodi ar goed a amddiffynnir

## Apeliadau Cynllunio

Os bydd y Cyngor yn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, neu'n ei roi ar sail amodau, yn methu delio â chais o fewn y terfynau amser statudol, neu'n cyflwyno hysbysiad gorfodi, mae gan yr ymgeisydd/y troseddwr honedig hawl i apelio i'r Arolygiaeth Gynllunio. Swyddogion Cynllunio o fewn y tîm sy'n delio gyda phob apêl, y gellir eu clywed trwy ddilyn un o dair gweithdrefn:- Sylwadau Ysgrifenedig; Gwrandawiad neu Ymchwiliad Cyhoeddus.

## Mwynau a Gwastraff

Mae'r gwasanaeth Mwynau a Gwastraff, gan gynnwys pob cais am waith mwynau, ôl-ofal a gwaith adfer, a monitro safleoedd Mwynau a Thirlenwi sydd eisoes yn bodoli, yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd ar y cyd â swyddogion yng Nghyngor Sir Caerfyrddin o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth sy'n cael ei adolygu'n achlysurol.

## Cytundebau Adran 106

Y tîm sy'n gyfrifol am gyd-drafod a monitro cydymffurfiaeth â'r holl gytundebau cyfreithiol a wnaed o dan Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref.

## Polisi Cynllunio

Mae Polisi Cynllunio yn cynnwys y tîm Polisi Cynllunio a'r tîm Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt. Mae'r timau'n cwmpasu'r meysydd cyfrifoldeb canlynol:

## Polisi Cynllunio

• **Y Cynllun Datblygu Lleol** – dyletswyddau statudol o ran paratoi, cyflawni, monitro ac adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mae hyn yn sicrhau bod datblygiad yn cael ei ddarparu mewn modd cynaliadwy, wedi'i gynllunio, yn unol â'r blaenoriaethau corfforaethol cytunedig ac amcanion y Cyngor.

- **Sylfaen Dystiolaeth y CDLl** – dyletswyddau o ran cynnal sylfaen wedi'i diweddaru o dystiolaeth i gynnal y CDLl.
- **Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)** – dyletswyddau o ran paratoi llu o CCA, sy'n cyflwyno canllawiau mwy manwl ar bynciau neu safleoedd ynghylch sut bydd polisïau'r CDLl yn cael eu cymhwyso i amgylchiadau neu ardaloedd penodol.
- **Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr** - dyletswyddau o ran paratoi a chyhoeddi Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr y Cyngor, bob 5 mlynedd.
- **Astudiaethau ar y cyd ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai** – dyletswyddau o ran cynhyrchu astudiaethau blynyddol sy'n amlinellu hyd a lled y cyflenwad o dir ar gyfer tai.
- **Teithio Llesol** - dyletswyddau statudol o ran paratoi ac adolygu Map Llwybrau Presennol y Cyngor (ERM) a'r Map o'r Rhwydwaith Integredig (INM).
- **Rhwydwaith Beicio** - dyletswyddau o ran datblygu a hybu llwybrau beicio.
- **Noddi Asedau**
  – dyletswyddau o ran hwyluso'r contract partneriaeth gyda darparwr trydydd parti, er mwyn cynhyrchu incwm trwy noddi seilwaith/asedau.

## Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt

- **Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus** - dyletswyddau statudol o ran y rhwydwaith cofrestredig o lwybrau troed, llwybrau ceffyl a chilffyrdd [gan gynnwys y map a'r datganiad terfynol; gwyriadau a chau ffyrdd; gwaith cynnal a chadw ar strwythurau a rhwystrau; a chyflawni'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (RoWIP).
- **Y Rhwydwaith Priffyrdd a Fabwysiadwyd** - dyletswyddau o ran cynghori ynghylch cwmpas y rhwydwaith priffyrdd a fabwysiadwyd.
- **Bioamrywiaeth / Ecoleg** – dyletswyddau statudol o ran cynghori ar bob agwedd ar gadwraeth bioamrywiaeth [gan gynnwys rheoli cynefinoedd a chadwraeth rhywogaethau (e.e. ystlumod); Gwarchodfeydd Natur Lleol; Safleoedd Pwysig o safbwynt Cadwraeth Natur; a chyflawni'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol].
- **Coed Cymru** -dyletswyddau o ran cynghori ar greu, rheoli ac ariannu coetir fel rhan o rwydwaith Coed Cymru.

Gan roi sylw i'r swyddogaethau uchod, rôl gyffredinol y Gwasanaeth Cynllunio yw datblygu Cynllun Datblygu cadarn, seiliedig ar dystiolaeth, y gellir ei gyflawni, ac

ymgymryd â'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer datblygiadau unigol, yn unol â'r cynllun hwnnw.

Yn dilyn proses hir a manwl o gasglu tystiolaeth ac Archwiliad Cyhoeddus cadarn, llwyddodd y Cyngor i fabwysiadu ein Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ym mis Ionawr 2016. Mae cyfnod y Cynllun yn estyn hyd 2026, ac yn disodli Cynllun Datblygu Unedol y Cyngor, a oedd yn cwmpasu'r cyfnod hyd at 2016. Mae'r CDLl i gael ei adolygu ym mis Ionawr 2020, er bod nifer o gymunedau'n ceisio adolygiad cynnar i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni eu dyheadau o dan fenter Tasglu'r Cymoedd. Gan nad yw'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn dangos nad yw ein polisïau'n cyflawni eu hamcanion, byddwn ni'n gwrthsefyll adolygiad o'r fath.

Mae'r CDLl yn eistedd ochr yn ochr â Chynllun Llesiant Castell-nedd Port Talbot (2018-2023), a gyhoeddwyd yn 2018, ac a oedd yn disodli Cynllun Integredig Sengl y Cyngor (2013-2023). Mae'r dogfennau hyn yn cyflwyno'r Weledigaeth ar gyfer Castell-nedd Port Talbot, ac yn ceisio cyflawni nifer o ddeilliannau yng nghyswllt iechyd, diogelwch, cynaliadwyedd, ffyniant ac addysg. Mae'r CDLl wedi cael ei baratoi er mwyn darparu mynegiant gofodol o oblygiadau defnydd tir y Cynllun Integredig Sengl, ac mae Gweledigaeth y CDLl yn arbennig yn cydweddu â gweledigaeth gyffredinol y Cyngor, fel y'i nodwyd yn y Cynllun Integredig Sengl.

Ar ben hynny, mae amrywiaeth o strategaethau a datganiadau polisi rhanbarthol a lleol sy'n darparu fframwaith ar gyfer y CDLl. Mae rhai o'r strategaethau allweddol hyn yn cynnwys:

- Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd ar gyfer De-orllewin Cymru (2015-2020);
- Adolygiad 1af o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (2014);
- Cynllun Rheoli'r Morlin (2010);
- Dinas-Ranbarth Bae Abertawe (2013);
- Strategaeth Twf Economaidd ar gyfer De-orllewin Cymru (2013-2030);
- Strategaeth Adfywio Glannau Castell-nedd Port Talbot (2011);
- Strategaeth Tai Lleol Castell-nedd Port Talbot (2015-2020);
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Castell-nedd Port Talbot (2014);
- Strategaeth Amgylcheddol Castell-nedd Port Talbot (2008-2026); a
- Chynllun Gweithredu Castell-nedd Port Talbot ar gyfer Datblygu Twristiaeth (2011-2014).

Mae’r CDLl yn cwmpasu ystod eang o faterion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, ac mae amcanion y Cynllun yn cyfateb i Gynllun Gofodol Cymru - h.y. creu cymunedau iach a chynaliadwy; hybu economi gynaliadwy; gosod gwerth ar ein hamgylchedd; cyflawni hygyrchedd cynaliadwy; a pharchu unigrywiaeth. Mae'r CDLl yn ceisio cyflawni rôl Castell-nedd Port Talbot o ran cefnogi nodau, amcanion a dyheadau ehangach y Ddinas-Ranbarth.

## Economi a Chyflogaeth

Mae cyflogaeth yn y Fwrdeistref Sirol yn cynnwys cyfran gymharol uchel o swyddi yn y sectorau gweithgynhyrchu a chyhoeddus, a chyfran gymharol isel yn y sector gwasanaeth. Mae'r canolbwynt cyflogaeth wedi'i leoli'n bennaf ar hyd coridor yr arfordir, a Tata Steel a'r Cyngor yw'r cyflogwyr mwyaf. Yn y Cymoedd, ceir y cyflogwyr mwyaf yn y diwydiannau echdynnu mwynau, gyda gweddill y boblogaeth yn cael eu cyflogi mewn mentrau bach a chanolig.

Mae nifer sylweddol uwch o bobl yn teithio allan o'r Fwrdeistref Sirol i gael hyd i waith nag sy'n teithio i mewn iddi. Mae'r patrwm hwn ar gyfer teithio i'r gwaith yn adlewyrchu'r ffaith fod y Fwrdeistref Sirol yn rhan o ardal ehangach teithio i'r gwaith Bae Abertawe. Mae'r banc tir o dir diwydiannol sydd â mynediad hwylus i'r ffordd, y rheilffordd a'r môr yn cyflawni swyddogaeth bwysig yn yr is-ranbarth, fel y bydd Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd y Brifysgol a Phentref Trefol Coed Darcy.

## Trafnidiaeth a Seilwaith

Mae'r seilwaith ffyrdd a rheilffyrdd allweddol yn croesi coridor yr arfordir, ac yn darparu sylfaen i'r Fwrdeistref Sirol fel ardal gyflogaeth allweddol o fewn yr is-ranbarth, drwy ddarparu cysylltiadau i'r dwyrain, trwy gyfrwng yr M4 a'r rheilffordd, i Gaerdydd a'r tu hwnt, i'r gorllewin i Abertawe ac i Ganolbarth Lloegr ar hyd ffordd Blaenau'r Cymoedd (Cefnffordd), yr A465. Bernir bod y dociau ym Mhort Talbot hefyd yn un o asedau'r ardal, gan eu bod yn darparu ar gyfer llwythi cyffredinol, yn ogystal â chyfleusterau dŵr dwfn ar gyfer llwythi swmpus.

## Adnoddau Naturiol

Mae'r Fwrdeistref Sirol yn cynnwys adnoddau mwynol, ar ffurf glo ac agregau, sy'n arwyddocaol ar raddfa'r Deyrnas Unedig. Maent hefyd yn bwysig o ran eu cyfraniad at economi Cymru ac yn fwy lleol o ran cyflogaeth.

Mae adnoddau glo oddi tan y Fwrdeistref Sirol gyfan fwy neu lai. Mae glo wedi cael ei gloddio’n helaeth o fewn yr ardal ers canrifoedd ac mae wedi cyfrannu’n sylweddol at greu a chynnal llawer o gymunedau’r cymoedd. Mae'r ddwy brif chwarel cerrig caled yn yr ardal, Gilfach (Castell-nedd) a Chwm Nant Lleici (Pontardawe), yn cyflenwi agregau manyleb uchel i amrywiol farchnadoedd.

Yn sgîl ardaloedd ucheldir helaeth y Fwrdeistref Sirol, mae cyfle sylweddol hefyd i fanteisio ar adnodd y gwynt. Mae dwy o'r Ardaloedd Chwilio Strategol (AChS E ac AChS F) a nodwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'u lleoli'n bennaf yn yr ardal weinyddol, ac ers iddynt gael eu dynodi, mae nifer sylweddol o dyrbinau bellach yn weithredol neu wedi derbyn caniatâd, ac mae gan ddatblygwyr yn yr ardal ddiddordeb o hyd.

## Cyd-destun hanesyddol/tirlun yr ardal

### Treftadaeth

Mae gan yr ardal gyfoeth o asedau hanesyddol, archaeolegol a phensaernïol, yn enwedig rhai sy'n gysylltiedig â hanes diwydiannol yr ardal o ran glo, haearn, dur a chopr. Mae hefyd yn cynnwys llawer o olion archaeolegol hŷn, sy'n dyddio'n ôl i'r cyfnod cyn y Rhufeiniaid. Mae'r rhain i gyd yn nodweddion pwysig yn yr ardal, sy'n creu unigrywiaeth lleol. Mae llawer ohonynt, megis Parc Margam a'r rhwydwaith camlesi, hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth a hamdden.

Cydnabyddir treftadaeth hanesyddol yr ardal trwy amrywiaeth o ddynodiadau. O fewn y Fwrdeistref Sirol, mae 2 Dirlun dynodedig o Ddiddordeb Hanesyddol, 6 Pharc a Gardd Hanesyddol, 6 Ardal Gadwraeth, 92 Heneb a 391 o Adeiladau Rhestredig.

## Tirlun ac Ecoleg

Mae gan Gastell-nedd Port Talbot dirlun amrywiol a nifer o gynefinoedd trawiadol, yn amrywio o gorsydd halen arfordirol a thwyni tywod i goetir hynafol ac ardaloedd ucheldir o laswellt y bwla. Mae rhai o'r cynefinoedd hyn o bwysigrwydd Ewropeaidd, Cenedlaethol neu leol. Mae ardaloedd helaeth o'r Fwrdeistref Sirol yn cynnwys planhigfeydd conifferau, ac mae'r ardal hefyd yn cynnwys nodweddion daearegol pwysig, yn cynnwys dyffrynnoedd rhewlifol a ffurfiannau creigiau.

Cydnabyddir treftadaeth hanesyddol yr ardal trwy amrywiaeth o ddynodiadau. Oddi mewn i'r Fwrdeistref Sirol mae 20 Safle dynodedig o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), 2 Warchodfa Natur Genedlaethol a 5 Gwarchodfa Natur Leol.

## Y Cyfuniad o'r Trefol a'r Gwledig a'r prif aneddiadau.

Fel y nodwyd uchod, rhennir y Fwrdeistref Sirol yn ddwy ardal wahanol o ran eu cymeriad; Coridor yr Arfordir, sy'n dilyn coridor yr M4 yn fras, ac Ardaloedd y Cymoedd, sef cyfanswm o 5 cwm.

O ran y prif aneddiadau, mae'r CDLl wedi diffinio Hierarchaeth Aneddiadau sy'n nodi'r ardaloedd sydd yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy ac sy'n gallu darparu'n fwy priodol ar gyfer twf o ran eu swyddogaeth. Nodwyd mai Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe yw'r 3 prif dref, gyda Llansawel, Sgiwen, Taibach a Glyn-nedd yn ganolfannau dosbarth.

Dosbarthir gweddill yr aneddiadau fel 'canolfannau lleol mawr', 'canolfannau lleol bach', 'pentrefi' neu 'aneddiadau noswylio'.

## Newid yn y Boblogaeth a'r dylanwad ar y CDLl/diwygiadau sydd i ddod.

Mae lefel y twf a nodir yn y CDLl wedi'i seilio ar senario economaidd sy'n uchelgeisiol ac yn anelu at fwyafu twf swyddi yn yr economi leol. Er mwyn ymdrin â materion allweddol y Fwrdeistref Sirol, mae creu cyfoeth trwy dwf swyddi yn hanfodol i gyflawni gweledigaeth y CDLl.

Mae'r dull hwn wedi galluogi'r Awdurdod i ragweld sut mae newidiadau economaidd dros gyfnod y Cynllun yn cyfateb i'r gofynion o ran tir cyflogaeth a nifer y tai newydd angenrheidiol i ddarparu ar gyfer y cyfanswm a ragwelir i'r boblogaeth a'r cyflenwad llafur fydd yn ofynnol. Mae hyn yn sicrhau aliniad rhwng strategaethau cyflogaeth a thai, gan greu patrwm datblygu mwy cynaliadwy a fydd, yn ei dro, yn gwella cadernid Strategaeth y CDLl.

Mae'r dull hwn wedi defnyddio rhagamcanion poblogaeth ac aelwydydd Llywodraeth Cymru 2008, a dadansoddiad manwl o'r tueddiadau gwaelodol o ran marwolaeth a ffrwythlondeb a maint cyfartalog aelwydydd. Ar sail senario uchelgeisiol twf swyddi (gan roi ystyriaeth i ddyhead yr Awdurdod i leihau diweithdra a chynyddu cyfraddau gweithgaredd economaidd yn unol â chyfartaledd Cymru), sbardunwyd twf poblogaeth yr ardal gan gymhareb y boblogaeth oedran gwaith a chyfanswm y boblogaeth. Bernir bod gwneud hynny yn sicrhau rhagamcanion mwy cadarn na rhai a seiliwyd ar dueddiadau yn unig, nad ydynt yn adlewyrchu'n gywir ddyheadau'r Awdurdod ar gyfer yr ardal.

Ar sail y senario twf a ragwelwyd, yn bennaf yn sgîl ffactorau economaidd, o 3850 o swyddi ar gyfer yr ardal, mae'r Cynllun yn darparu ar gyfer 7800 o unedau preswyl newydd eraill, gan greu cynnydd o ryw 7000 o bobl a chyfanswm poblogaeth o 147,400 erbyn 2026. Mae'r agwedd hon yn uchelgeisiol, wedi'i chysylltu â'r economi leol, ac wedi'i llunio i gyd-fynd â'r twf a ragwelir mewn gweithgaredd economaidd a'r gostyngiad ym maint cyfartalog aelwydydd, yn ogystal â helpu i ddiwallu'r angen am unedau preswyl fforddiadwy ychwanegol.

## Y Gyllideb a Goblygiadau Cysylltiedig

O ystyried y blaenoriaethau a nodwyd gan y Cyngor, mae cyllid wedi cael ei neilltuo er mwyn darparu/gwella gwasanaethau yn yr Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg, a bydd hynny'n parhau'n flaenoriaeth. Mae'r pwysau ariannol ychwanegol y mae'r Cyngor yn ei wynebu, wedi i'r economi ddymchwel yn 2008, a'r mesurau cyni a ddilynodd o ganlyniad, wedi cael effaith sylweddol ar Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd, lle mae'r gyllideb wedi cael ei thorri nôl £18,945 miliwn, sy'n cyfateb i ostyngiad o 55% ers 2009/10. Mae'r gyllideb ar gyfer 2017/18 yn £34,755 miliwn, sef 14.7% o gyllideb net y Cyngor. Mae'r Gyfarwyddiaeth hefyd wedi cael y gwaith o sicrhau arbedion pellach o £1.1 filiwn yn ystod 2018/19. Hyd yma mae'r Gyfarwyddiaeth wedi cael hyd i £696,000 ychwanegol o arbedion arfaethedig, y mae £109,000 ohonynt i gael eu cyflawni gan y Gwasanaeth Cynllunio. Mae'r rhain i gael eu sicrhau trwy gyfuniad o syniadau cynhyrchu incwm ac arbedion, ac yn fuan byddant yn destun ymarferiad ymgynghori fel rhan o Flaengynllun Ariannol y Cyngor (FFP). Mae toriadau o'r fath wedi arwain at ostyngiad yn nifer y staff, dod â rhai gwasanaethau anstatudol i ben, rhoi modelau darparu gwasanaeth amgen ar waith, a chynyddu ffïoedd lle mae disgresiwn lleol yn caniatáu hynny.

Cyn y dirywiad yn yr economi, roedd yr Awdurdod yn cael trafferth cyflawni'r swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol o ganlyniad i broblemau recriwtio a chadw, ynghyd â galw cynyddol. Yn sgîl hyn bu ond y dim i'r gwasanaeth wynebu

mesurau arbennig, oni bai bod camau drastig yn cael eu cymryd. Arweiniodd camau o'r fath at gyfeirio mwy o adnoddau o wasanaethau eraill o fewn y cyngor i gefnogi'r swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol. O ganlyniad, targedwyd Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd, gan gynnwys y swyddogaeth Gynllunio, ar gyfer arbedion ariannol mor bell yn ôl â 2006. Pan ddaeth argyfwng ariannol 2008, bu'n rhaid gwneud toriadau ariannol pellach, ac mae hynny wedi parhau o flwyddyn i flwyddyn. Effaith toriadau am gyfnod mor hir yw bod y toriadau arfaethedig y mae awdurdodau eraill yn eu hystyried ar hyn o bryd er mwyn ymateb i'r cyni parhaus, eisoes wedi'u gwneud gan yr awdurdod hwn. Mae hyn wedi cynnwys toriadau i lefelau staff yn ogystal â thoriadau sylweddol i gyllidebau a ddefnyddiwyd yn flaenorol i gomisiynu ymgynghorwyr i wneud gwaith ar ran y cyngor. Ers 2012 mae'r gwasanaeth cynllunio, sy'n cynnwys Rheoli Datblygu, Polisi Cynllunio a Chefn Gwlad a Bywyd Gwyllt (mae Rheoli Adeiladau wedi cael ei eithrio) wedi gweld ei strwythur staff yn lleihau o 62 CALl i 38 CALl (mae hyn yn cynnwys y gefnogaeth weinyddol gysylltiedig). Mae hyn yn ostyngiad o 39%. Mae'r gostyngiad hwn yn nifer y staff, o'i gyfuno â'r gostyngiadau a brofwyd yn y gwasanaethau sy'n cefnogi'r swyddogaeth gynllunio h.y. priffyrdd, draenio, iechyd amgylcheddol ac ati, wedi cael effaith sylweddol ar berfformiad a morâl o fewn y gwasanaeth. O ganlyniad, mae'r staff yn teimlo o dan fwy o bwysau, yn mynd yn llai hyblyg, ac mae lefelau salwch yn codi.

Mae rheoli salwch yn Fesur Corfforaethol Gorfodol, ac mae'n ofynnol i Reolwyr Gwasanaeth leihau lefelau salwch o flwyddyn i flwyddyn. O ganlyniad i ymadawiad llawer o staff, mae lefelau salwch oddi mewn i'r Gwasanaeth Cynllunio yn gyffredinol wedi cynyddu o 252 diwrnod (6.6 diwrnod fesul CALl) yn 2016/17 i 358.28 diwrnod (9.42 diwrnod fesul CALl) yn 2017/18. Mae hyn ryw fymryn o dan gyfartaledd y Cyngor, sef 9.5 diwrnod fesul CALl. Mae lefelau salwch yn ddylanwad pwysig ar allu'r Cyngor i ddarparu'r gwasanaeth gan fod rhaid i'r staff sydd ar ôl ymdopi â'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â'r staff sy'n absennol oherwydd salwch. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn wynebu cynnydd yn nifer yr aelodau staff sy'n absennol oherwydd salwch yn sgîl lefelau straen uwch, a'r straen hwnnw, yn ymwneud fwyfwy â materion heblaw gwaith yn ogystal â straen yn y gwaith, ac maent yn cymryd mwy o amser o'r gwaith yn ystod pob cyfnod o salwch. Gwaetha'r modd, mae'n debygol y bydd y tueddiad hwn yn parhau, gan fod llai o staff yn gorfod ymdopi â llwyth gwaith cynyddol a mwy heriol wrth symud ymlaen.

Nid lefel salwch y staff yw'r unig ffactor sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaeth. Dengys y siartiau perfformiad tua diwedd yr adroddiad hwn, er ein bod yn gyffredinol yn perfformio'n dda wrth ddelio gyda'r rhan fwyaf o fathau o geisiadau cynllunio, bod problem sylweddol yng nghyswllt ein perfformiad wrth benderfynu ar geisiadau pwysig. Mae hyn wedi cael ei gydnabod, a rhoddwyd adnoddau yn eu lle dros dro i gynyddu nifer yr uwch-swyddogion o ddau i dri. Gwaetha'r modd, wedi i uwch-swyddog ymddeol, a'r pwysau ar y gyllideb oedd yn cael ei brofi ar y pryd ac sy'n dal yn wir, ni chafodd y swydd honno ei llenwi. Mae hyn wedi digwydd ar yr un pryd â diweddglo nifer o geisiadau pwysig a dadleuol, ac felly mae ein perfformiad wedi gostwng. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod nifer o'r ceisiadau pwysig wedi dioddef oedi oherwydd camau a gymerwyd gan yr ymgeisydd. Er enghraifft, mae nifer o'r ymgeiswyr wedi gofyn yn benodol am oedi cyn ystyried y ceisiadau, er

mwyn caniatáu ailddylunio'r cynlluniau i adlewyrchu marchnad newidiol. Gohiriwyd ystyried eraill er mwyn rhoi cyfle i ymgeiswyr gasglu rhagor o wybodaeth er mwyn ymateb i wrthwynebiadau ymgyngoreion statudol. Er bod gan yr Awdurdod bob hawl i wrthod y ceisiadau hynny, cyhyd â bod hynny o fewn y cyfnod amser statudol, barnwyd mai pwysicach oedd gweithio gyda'r datblygwr i'w (g)alluogi i dderbyn argymhelliad ffafriol o bosib, ac felly gyfrannu at ddyheadau adfywio'r Cyngor.

Oherwydd y pwysau ar y cyngor i sicrhau arbedion, mae'r Gwasanaeth wedi wynebu colli sgiliau arbenigol dros y blynyddoedd; yn arbennig, collwyd sgiliau yng nghyswllt cadwraeth a dylunio, tirweddu, draenio a Mwynau. O ran yr olaf, gan mai'r Cyngor sydd ag un o'r adnoddau mwynau mwyaf y manteisir yn weithredol arno yng Nghymru, nid oes modd gweithredu heb sgiliau arbenigol cynllunydd mwynau. O ystyried y prinder swyddogion sydd ar gael yn y maes hwn, llofnododd y Cyngor Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Sir Caerfyrddin yn 2015, a nhw sydd bellach yn darparu'r gwasanaeth cynllunio a gorfodi ar gyfer mwynau i'r cyngor, er mai Castell-nedd Port Talbot sy'n cadw'r pwerau gwneud penderfyniadau. Mae hwn yn drefniant buddiol o'r ddeutu ar y sail bod Sir Gaerfyrddin bellach yn cael ei hariannu'n briodol i gynnal tîm o swyddogion, gan wella gwydnwch y tîm ac mae'r swyddogion hefyd yn gallu gwella'u sgiliau a'u profiad trwy weithio ar nifer o ddatblygiadau mwynau cymhleth a dadleuol yng Nghastell-nedd Port Talbot. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth amlwg rhwng bod ag arbenigwr mewnol a dibynnu ar adnodd rhanbarthol sy'n ceisio rheoli galwadau cystadleuol ar draws y rhanbarth. Er bod y CLG yn darparu cefnogaeth gynllunio a rôl fonitro yng nghyswllt gorfodi, roedd gan yr Awdurdod hefyd hyd at eleni swyddog penodol ar gyfer gorfodi gwastraff a mwynau, oedd yn hanfodol i'r bwriad i gyflawni'r gwaith adfer a newidiwyd ar y tri safle glo brig yn y fwrdeistref sirol. Mae'r swyddog dan sylw wedi bod yn ymddeol yn raddol, ac er ei fod yn dal i weithio ddau ddiwrnod yr wythnos, mae hynny'n annhebygol o barhau mwy nag ychydig flynyddoedd. Mae'n annhebygol y bydd yr adnodd cyfyngedig hwn, o ystyried gwybodaeth, sgiliau a phrofiad y swyddog, yn cael ei ddarparu eto wrth symud ymlaen, ac nid yw chwaith yn debygol o fod yn fforddiadwy.

Mae'r swyddogaeth Rheoli Datblygu yn wasanaeth sy'n ennill ffïoedd, ac yn sgîl hynny mae'r gyllideb gysylltiedig â'r gwasanaeth yn seiliedig ar lefelau incwm ffïoedd hanesyddol ar sail tueddiadau, gyda'r gyllideb refeniw ganolog yn talu am unrhyw ddiffygion. Mae pwysau bob blwyddyn i fwyafu incwm ffïoedd ac felly leihau'r angen am gymorth refeniw i gau'r bwlch. O flwyddyn i flwyddyn mae'r gwasanaeth wedi methu â chyrraedd ei darged o ran incwm, yn bennaf o ganlyniad i'r dirywiad yn y ceisiadau pwysig mawr oedd yn dod â ffïoedd yn eu sgîl, yn enwedig mewn cysylltiad â datblygiadau mwynau ac ynni adnewyddadwy. Effeithiwyd yn sylweddol ar yr olaf gan y torri'n ôl ar gymorthdaliadau gan y Llywodraeth Ganolog, a'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Datganiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, oedd yn golygu bod unrhyw ffïoedd sylweddol o'r fath yn cael eu talu i Lywodraeth Cymru yn hytrach nag i'r Cyngor. Mewn blynyddoedd a fu mae'r bwlch hwn yn y gyllideb wedi cael ei gau trwy leihau gwariant mewn meysydd eraill, er enghraifft, rhewi swyddi gwag am gyfnod mor hir â phosibl a sicrhau cymorth ariannol ar draws gwasanaethau eraill. Lle bu modd, mae'r gwasanaeth hefyd wedi ceisio ymgysylltu â

datblygwyr i lofnodi Cytundebau Perfformiad Cynllunio (PPAs) yng nghyswllt datblygiadau strategol mawr, er mai gwirfoddol yw cytundebau o'r fath, a'u bod yn dibynnu ar gyflwyno datblygiadau ar raddfa fawr, nad yw wedi digwydd yn ddiweddar. Rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r pwysau blynyddol hwn yng nghyllideb 2017/18, pryd y gostyngwyd y targed incwm £100,000. Er gwaethaf y gostyngiad hwn, roedd diffyg o £250,000 gan y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a thalwyd am hynny gan wasanaethau eraill.

Ychydig iawn o incwm ffïoedd sydd gan yr is-adran Polisi Cynllunio a Chefn Gwlad a Bywyd Gwyllt, er y ceisir grantiau o amrywiol ffynonellau i gyflawni gwaith prosiect sy'n ymwneud â theithio llesol, bioamrywiaeth, a gwelliannau i'r rhwydwaith hawliau tramwy. Bydd colli'r grant Gwella Hawliau Tramwy, sy'n werth £50,000 y flwyddyn ar gyfer 2018/19, yn rhoi cryn bwysau ar y gwasanaeth, ac mae'n debygol y bydd ansawdd y rhwydwaith a'r gwaith o'i gynnal yn dirywio o ganlyniad. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am gynhyrchu incwm trwy weithgareddau noddi asedau. I'r diben hwn mae gennym gontract gyda chwmni preifat sy'n marchnata ein hasedau. Cynyddwyd y targed incwm ar gyfer noddi asedau yn ystod 2017/18, o £33,000 i £108,000, ond dim ond £58,000 a gyflawnwyd, felly gadawyd y gwasanaeth gyda diffyg o £50,000. Er bod yr un cwmni wedi llwyddo i farchnata asedau tebyg mewn awdurdod cymdogol, mae'r nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd i hysbysebu yng Nghastell-nedd Port Talbot yn wael iawn, ac rydym ni'n gweithio gyda'r cwmni marchnta, ynghyd â'n cydweithwyr datblygu economaidd, i ganfod pam fod hynny'n wir, h.y. Ai aneffeithiolrwydd y cwmni marchnata sydd ar fai, neu'r diffyg cyllideb farchnata ar gyfer y busnesau hynny sydd o fewn neu'n agos at ffiniau CNPT?

Er gwaethaf yr uchod, mae cost darparu'r gwasanaeth yn gorbwyso lefelau'r incwm a gynhyrchir, a hynny o bell. Mae'r siart sy'n dilyn yn nodi'r lefelau gwariant cyffredinol ar gyfer pob un o'r gwasanaethau yn y swyddogaeth gynllunio, yn ystod 2011/12 ac yn ystod y flwyddyn 2016/17, fel bod modd cymharu dros amser a dangos ym mha feysydd rydym wedi gwneud toriadau sylweddol yn ystod y cyfnod hwnnw.

## Cymharu Lefelau Gwariant Net rhwng 2011/12 a 2017/18

| | Rheoli Datblygu | Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt | Polisi Cynllunio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **2011/12** | £248,740 | £498,205 | £544,656 | £1,291,601 |
| **2016/17** | £249,237 | £231,412 | £293,125 | £773,774 |
| **Y Gwahaniaeth** | £497 | -£266,793 | -£251,531 | -£517,827 |
| **% y Newid** | +0.2% | -54% | -46% | -40% |

Dengys y tabl uchod fod gostyngiad cyffredinol o 40% yn y gwariant cysylltiedig â'r Gwasanaeth Cynllunio ers 2011/12. (Mae'r gostyngiad yn sylweddol uwch mewn termau go iawn o gymryd chwyddiant i ystyriaeth.) Mae'r gostyngiad hwn wedi digwydd yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad yn nifer y staff.

O ran lefelau incwm, sicrheir hynny'n bennaf yn is-adran Rheoli Datblygu'r gwasanaeth, trwy ffïoedd ceisiadau cynllunio, ffïoedd cyn-ymgeisio a Chytundebau Perfformiad Cynllunio. Mae'r lefelau incwm hyn wedi gostwng yn sylweddol o

£731,012 yn 2016/17 i £444,046 yn 2017/18. Mae'r gostyngiad hwn yn yr incwm, fel y nodwyd eisoes, wedi digwydd o ganlyniad i ostyngiad yn y ceisiadau cynllunio a gyflwynir sy'n cynhyrchu ffïoedd mawr, a ddefnyddiwyd i ddarparu cymhorthdal ar gyfer prosesu ceisiadau llai, lle roedd yr incwm o'r ffïoedd yn llawer is na'r hyn oedd yn angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaeth.

Mae Adroddiadau Perfformiad Cynllunio Blynyddol blaenorol wedi cadarnhau bod newidiadau ansylweddol (NMAs) a cheisiadau A73 sy'n caniatáu newidiadau i ganiatâd cynllunio wedi arwain at ostyngiad yn y ffïoedd yn ogystal. O ystyried bod hyn wedi cael ei drafod yn flaenorol, nid oes angen nodi manylion ynghylch pam mae hynny'n digwydd, ond mae'n bwysig nodi ei fod yn parhau i gael effaith.

Mewn ymgais i fynd i'r afael â'r uchod, mae'r cyngor yn mynd ar ôl agenda fasnacholi, lle gallem ni fod yn ystyried darparu gwasanaethau sy'n ennill ffïoedd (yn amodol ar gyfyngiadau deddfwriaethol). Rydym eisoes yn darparu gwasanaeth cyn-ymgeisio statudol ac anstatudol sy'n creu incwm, yn ogystal â chreu Cytundebau Perfformiad Cynllunio lle bynnag y bo modd. Er bod hyn wedi darparu incwm ychwanegol am nifer o flynyddoedd, mae'r diffyg ffïoedd am ganiatâd cynllunio, ynghyd â'r gostyngiad yn y ceisiadau cynllunio mawr sy'n cynhyrchu ffïoedd wedi golygu bod angen canolbwyntio'n fwy ar y broses cyn-ymgeisio. Bydd hyn yn cael ei esbonio'n fanylach yn yr adran sy'n dilyn. Mae'r cyfleoedd i ennill ffïoedd yn yr ystyr gynllunio bur yn gyfyngedig iawn y tu allan i'r meysydd hyn. Serch hynny, bydd ein gwaith noddi asedau, ynghyd â'r gwaith ymgynghoriaeth a wneir gan yr is-adran Bioamrywiaeth a'n cydweithwyr yn adran Diogelu'r Cyhoedd yn y gwasanaeth yn ein galluogi i barhau i draws noddi mewn ymgais i atal rhagor o doriadau i'r dyfodol. Nid yw hyn yn debygol o fod yn ateb tymor hir ar gyfer darparu gwasanaethau statudol os caiff toriadau pellach eu trosglwyddo o'r Llywodraeth Ganolog i Lywodraeth Leol.

## Ein Stori Leol

Yn 2017/18 roedd yr Awdurdod yn cyflogi 13 o Swyddogion Cynllunio CALl yn y tîm Rheoli Datblygu, sy'n adrodd i Reolwr Datblygu. Roedd gennym hefyd swyddogion mwynau arbenigol at ein defnydd yn Sir Gaerfyrddin trwy CLG, er ein bod yn cydnabod bod y galw am y gwasanaethau hyn yn lleihau. Swyddi'r rhain oedd 2 Arweinydd Tîm, 3 Uwch Swyddog Cynllunio, 5 Swyddog Cynllunio, a 3 Chynllunydd Cynorthwyol. Roeddem hefyd yn cyflogi 2.4 Swyddog Gorfodi, yr oedd 0.4 ohonynt yn delio gyda materion mwynau a gwastraff.

Yn ystod 2017/18 penderfynwyd ar 804 o geisiadau cynllunio ac ymchwiliwyd i 257 o gwynion gorfodi. Oherwydd ffigurau perfformiad siomedig yng nghyswllt penderfynu ar geisiadau cynllunio pwysig, cyflwynwyd achos busnes dros benodi uwch swyddog cynllunio ychwanegol a fyddai'n codi nifer y swyddogion i dri. Bydd y swyddogion hyn yn canolbwyntio ar sicrhau bod datblygiadau pwysig yn dilyn llwybr cyflym trwy'r broses gynllunio, gyda golwg nid yn unig ar gyflymu penderfyniadau, ond hefyd ar alluogi'r Cyngor i gyflawni ei raglen adfywio uchelgeisiol. Gwaetha'r modd, mae un o'r swyddogion wedi ymddeol ers hynny, ac yn sgîl y pwysau cyllidebol parhaus ar y gwasanaeth, mae'r swydd wedi cael ei chadw yn y strwythur, ond wedi cael ei rhewi.

Yn ogystal â hyn, mae ailstrwythuro pellach wedi digwydd o ganlyniad i ymddeoliad swyddog gorfodi. Gan mai dim ond dau swyddog gorfodi sydd gan y gwasanaeth ar gyfer y fwrdeistref sirol gyfan, ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn cafodd un o'r swyddogion cynllunio presennol ei symud i faes gorfodi. Hefyd, gwaetha'r modd, collodd y Swyddog Adran 106 ei swydd oherwydd y pwysau ariannol uchod. O ganlyniad, mae'r gwasanaeth nid yn unig wedi colli uwch swyddog cynllunio, ond hefyd bu gostyngiad net o ddau swyddog cynllunio o fewn y gwasanaeth tua diwedd blwyddyn ariannol 2017/18.

Er gwaethaf yr uchod, yn ystod y cyfnod hwn cyflawnodd y **Swyddogion a'r Cynorthwywyr Cynllunio** lwyth gwaith amrywiol, fel a ganlyn:

Ar gyfartaledd dyrannwyd llwyth achosion o 109 cais i **Gynorthwywyr Cynllunio** y llynedd, ac roedd ganddynt gyfradd benderfynu gyfartalog o ryw 115 cais yr un yn ystod y flwyddyn.

Ar gyfartaledd dyrannwyd llwyth achosion o 68 cais i **Swyddogion Cynllunio** y llynedd, ac roedd ganddynt gyfradd benderfynu gyfartalog o ryw 71 cais yr un yn ystod y flwyddyn.

Ar gyfartaledd dyrannwyd llwyth achosion o 33 cais i **Uwch Swyddogion Cynllunio ac Arweinyddion Tîm** y llynedd, ac roedd ganddynt gyfradd benderfynu gyfartalog o ryw 35 cais yr un yn ystod y flwyddyn.

*(Mae hyn yn cynnwys ceisiadau nad ydynt fel arfer yn cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru, megis ymgyngoriadau gan awdurdodau cymdogol, sgrinio Gorchmynion Amddiffyn Coed, a rhychwantu barn ac ati)*

Mae'n galonogol gweld, er gwaethaf y newidiadau deddfwriaethol a gweithdrefnol sylweddol y mae'r system gynllunio wedi'u hwynebu yn ddiweddar, bod y ffigurau uchod yn dangos cynnydd yn llwyth achosion yr holl swyddogion a gwelliant yn eu perfformiad o gymharu â'r llynedd. Serch hynny, mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau ein bod yn gallu ailbenodi uwch-swyddog, swydd sy'n wag ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau bod ceisiadau pwysig yn dilyn llwybr cyflym trwy'r system gynllunio ac yn cael eu cyflawni ar lawr gwlad. Yn ogystal â gwella perfformiad yr Awdurdod yn hynny o beth, ein hamcan yw atgyfnerthu'r neges i'n holl gwsmeriaid bod Castell-nedd Port Talbot yn 'lle ar gyfer busnes', gyda manteision posibl i'r economi leol o ganlyniad.

Nodir o'r ffigurau uchod bod llwyth gwaith y swyddogion yn ymddangos yn llai na'r hyn a nodwyd mewn dogfen ymchwil a gomisiynwyd gan Gymdeithas y Swyddogion Cynllunio yn 2004. Cadarnhaodd y gwaith ymchwil hwn y dylai llwyth gwaith rhesymol i swyddog achosion gynnwys rhyw 150 o geisiadau (heb gynnwys ceisiadau cyn-ymgeisio, apeliadau a gwaith arall nad yw'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio). Fodd bynnag, gwnaed y gwaith ymchwil hwnnw ryw 12 mlynedd yn ôl, ac ers hynny mae cymhlethdod deddfwriaeth gynllunio wedi cynyddu'n sylweddol. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth Cynllunio Ymgynghorol yn gwneud gwaith ymchwil ar ansawdd y gwasanaeth, cost ei ddarparu, a hefyd yn asesu gallu pob gwasanaeth i ymateb i

ofynion ein cwsmeriaid. Er na chafodd yr ymchwil ei chomisiynu gan Awdurdodau Cynllunio Lleol, ceisiwyd ein cydweithrediad ar y sail y byddai'r wybodaeth yn cael ei rhannu gyda phob awdurdod ac yn cael ei gwneud yn ddienw er mwyn sicrhau na fyddai'n cael ei defnyddio'n offeryn yn erbyn awdurdodau penodol. O ganlyniad, roedd mwyafrif llethol yr awdurdodau yn barod i gydweithredu, gan gynnwys CNPT, ond nid ydym wedi cael yr adroddiadau manwl a addawyd i ni. Ymhellach, fe'n hysbyswyd bod adroddiad wedi cael ei gwblhau ar gyfer Llywodraeth Cymru, a hwnnw heb fod yn ddienw. Roedd y prosiect hwn, felly, yn tanseilio'r ymrwymiadau a wnaed gan y darparwr, yn ogystal â thanseilio amcanion cydweithio a thryloywder. (Nid yw canlyniadau'r gwaith ymchwil hwnnw wedi'u cyhoeddi eto).

Fel rhan o'r gwaith ymchwil hwnnw mae Castell-nedd Port Talbot wedi pwysleisio ei sefyllfa unigryw yn yr ystyr nad oes gan y gwasanaeth Cynllunio bellach dechnegwyr cynllunio i'w gefnogi. O ganlyniad, mae'n ofynnol i swyddogion achosion wneud eu gwaith gweinyddol eu hunain ar gyfer ceisiadau, gan gynnwys dilysu, cofrestru, sganio a mynegeio dogfennau ar y system rheoli dogfennau electronig, a pharatoi ffeiliau i'w dosbarthu yn dilyn y penderfyniad. Mae hyn i gyd yn cymryd amser ac adnoddau, ac mae angen ei ystyried ar ben manylion nifer yr achosion.

Ar ben hynny, mae cyfrifoldebau'r holl Swyddogion Cynllunio'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd i sicrhau bod unrhyw gapasiti dros ben a allai fodoli yn cael ei ddefnyddio i gynnal darpariaeth y gwasanaeth gorfodi a'n gweithgareddau cynhyrchu incwm.

O droi at Bolisi Cynllunio, mae'r is-adran yn cynnwys y tîm Polisi Cynllunio, gan gynnwys teithio llesol a noddi asedau (6 CALl) a'r tîm Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt (8.7 CALl) sy'n adrodd i'r Rheolwr Polisi Cynllunio.

Er bod nifer y staff yn y tîm Polisi Cynllunio wedi lleihau ers dechrau proses y CDLl (3 CALl yn llai), mae nifer y cyfrifoldebau wedi cynyddu, o ymwneud â pholisi cynllunio yn unig (h.y. paratoi'r CDLl, monitro ac adolygu, Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ac ati) ac maent bellach wedi estyn i gynnwys teithio llesol / hybu beicio a datblygu a noddi asedau. Ar ôl llywio'r CDLl yn llwyddiannus trwy EIP a arweiniodd yn y pen draw at fabwysiadu'r cynllun ym mis Ionawr 2016, mae pwyslais y gwaith yn 2017/18 wedi newid yn bennaf i gyflwyno nifer o CCA cysylltiedig, ymateb i'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) cyntaf a pharatoi'r ail AMB, a chyflawni gofynion deddfwriaeth Teithio Llesol [h.y. y Map o'r Llwybrau Presennol (ERM) a'r Map o'r Rhwydwaith Integredig (INM)].

Mae'r tîm Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt, sy'n gyfrifol am fioamrywiaeth, hawliau tramwy cyhoeddus a chyngor ar briffyrdd, hefyd yn rhoi mewnbwn i'r broses gynllunio. Mae nifer staff y tîm hefyd wedi gostwng dros gyfnod o amser (3.4 CALl), ac o ganlyniad mae rôl y tîm wedi gorfod cael ei ailwerthuso nawr i roi mwy o bwyslais ar gyngor tebyg i ymgynghoriaeth i adrannau eraill. Mae bioamrywiaeth a hawliau tramwy yn ymgyngoreion ar gyfer Rheoli Datblygu.

Mae pob un o'r is-adrannau uchod yn cydweithio i ddarparu gwasanaeth cynllunio Castell-nedd Port Talbot, ac maent yn dibynnu ar yr incwm a gynhyrchwyd o'r broses

ceisiadau cynllunio er mwyn parhau i weithredu. Er gwaethaf hyn, mae nifer y ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd ar gyfer ceisiadau mawr a mân wedi lleihau'n sylweddol ers i'r cyni gychwyn. Roedd hynny, fwy na thebyg, o ganlyniad i ansicrwydd buddsoddwyr, yng nghyswllt y marchnadoedd ariannol ansefydlog yn dilyn y chwalfa economaidd yn 2008, ac ers hynny disodlwyd y pryder hwnnw gan bryderon ynghylch Brexit a beth bydd hynny'n ei olygu. Mae'n werth nodi mai'r un ffactor cyson yn ystod y cyfnod hwn oedd dichonoldeb. Er bod ymchwil wedi cael ei chomisiynu i ganfod pam mae oedi gyda gwaith datblygu yng Nghymru, nid oes fawr ddim symudiad i roi sylw i'r mater hwn, gydag eithriad posibl ar ffurf trafodaethau diweddar ynghylch Treth Tir gwag. Er y dylai treth o'r fath, mewn egwyddor, atal tirfeddianwyr/datblygwyr rhag bancio tir, nid oes oedi bwriadol yn achos y mwyafrif o safleoedd, yn hytrach mae'n fater o ddichonoldeb.

Yn lleol, mae gwerthoedd gwerthiant yng Nghastell-nedd Port Talbot yn sylweddol is nag yn ardaloedd cymdogol Pen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe, ac o ganlyniad, mae'r ardaloedd cymdogol hyn yn profi lefel uwch o alw gan adeiladwyr tai cenedlaethol. Mae hyn yn ei dro yn galluogi'r cynghorau cysylltiedig i sicrhau incwm ffïoedd uwch o'r ceisiadau cynllunio ac yn eu galluogi i gyflawni uchelgais twf eu CDLl. O ystyried hinsawdd economaidd y blynyddoedd diwethaf, mae hyd yn oed yr adeiladwyr tai swmpus yn fwy gochelgar, ac yn tueddu i fuddsoddi dim ond mewn safle y maent yn barnu fydd yn sicrhau'r enillion uchaf. Mae'n ddigon eglur y bydd adeiladwyr tai cenedlaethol yn dewis canolbwyntio ar ardaloedd gwerth uwch, lle mae cyfle i sicrhau enillion uwch. Mae hyn nid yn unig yn cael effaith ar incwm ffïoedd cynllunio, ond yn fwy pwysig gallai waethygu'r diffyg tai mewn rhai rhannau o Gymru, gan gynnwys Castell-nedd Port Talbot.

Mae effeithiau dichonoldeb wedi dylanwadu hefyd ar y ddarpariaeth tai fforddiadwy, gan fod y rheiny'n cael eu cyflwyno fel canran o'r cyfanswm niferoedd tai a dim ond mewn ardaloedd y barnwyd eu bod yn ddichonadwy pan fabwysiadwyd y CDLl. Ers yr adeg honno mae gwerth tir wedi parhau i ostwng, tra bod costau adeiladu wedi codi. Ar ben hynny, mae disgwyliadau perchnogion tir wedi codi hefyd. Gwelir hyn yn yr enghraifft sy'n dilyn lle rydym ni'n delio gydag ymholiad cyn-ymgeisio i ddatblygu safle a ddyrannwyd yn y CDLl ar gyfer hyd at 200 o unedau preswyl ar 10 hectar. Roedd y safle'n cael ei farchnata am £5 miliwn, ac roedd y datblygwr wedi cynnig 10% o dai fforddiadwy, yn ogystal â £500,000 tuag at rwymedigaethau cynllunio a fyddai'n cynnwys gwaith priffyrdd oddi ar y safle. Gan fod cyfraniadau o'r fath yn is nag y mae CCA y cyngor yn ceisio'u sicrhau, cyfeiriwyd y cynnig at y Prisiwr Dosbarth (DV), ond ei ymateb oedd bod y ffactorau anarferol cysylltiedig â'r safle yn golygu bod y cynnig a gafwyd gan y datblygwr yn hael, ac nad oedd modd iddo sicrhau enillion i adeiladwr y tai. Awgrymodd y Prisiwr y dylid gosod gwerth o £1.85m ar y tir, yn hytrach na'r £5 miliwn y gofynnwyd amdano. Mewn ymateb i hyn, mae perchennog y tir wedi codi pris y safle i £7.3m, gan ddiystyru'r ffactorau anarferol a hyd yn oed werthoedd tir cymaradwy yn yr ardal o amgylch. Mae enghreifftiau fel hon yn golygu ei bod hi'n anodd iawn i'r cyngor ddarparu tai fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol yn unol ag uchelgais y CDLl. Er y cydnabyddir y gallai fod nifer o ganlyniadau annerbyniol i'r dreth tir gwag arfaethedig, byddai'n sicr yn helpu i fynd i'r afael â disgwyliadau afresymol

tirfeddianwyr mewn achosion fel hwn. Ymhellach, mae'n cyfiawnhau newid posibl ym mholisi a gweithdrefn y CDLl i ddangos bod safle'n gyflawnadwy/ddichonadwy cyn ei ddyrannu.

Er gwaetha'r pwysau ar y gyllideb a'r gostyngiad yn nifer y staff a brofwyd, mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi sicrhau nifer o gyflawniadau yn ystod y blynyddoedd ariannol diwethaf, ac fe'u crynhoir fel a ganlyn:

1. Ers mabwysiadu'r CDLl, mae cyfanswm o 11 CCA wedi cael eu cyhoeddi, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â Rhwymedigaethau Cynllunio; Tai Fforddiadwy; Mannau Agored a Mannau Glas; Fframwaith Datblygu Parc Ynni Baglan; Tirlun a Morlun; Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth; Llygredd; Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel; Safonau Parcio; Dylunio; a Datblygiad a'r Iaith Gymraeg. Mae gwaith eisoes wedi cychwyn ar y CCA sy'n weddill.

2. Mae ymchwil a gwaith paratoadol wedi cael ei wneud i gyflawni 'Cynllun Gwneud Iawn ar gyfer Bioamrywiaeth' i gefnogi'r broses gynllunio sy'n bwydo i ddatblygiad CCA. Bydd y gwaith hwn yn helpu i ddatblygu a chyflawni safleoedd strategol i wneud iawn ar gyfer bioamrywiaeth, a hynny ar draws y fwrdeistref sirol, gan adlewyrchu'r amrywiaeth eang o gynefinoedd sydd i'w gweld yno. Fe'u defnyddir yn gronfeydd ar gyfer planhigion ac anifeiliaid y mae angen eu trawsleoli o safleoedd eraill i'w helpu i ailddatblygu. Bydd hyn o fantais mewn tair ffordd wrth sicrhau gwelliannau i fioamrywiaeth, yn unol â chynllun gweithredu bioamrywiaeth y cyngor; caniatáu rhyddhau tir i'w ailddatblygu y mae bioamrywiaeth yn effeithio arno ar hyn o bryd, ac yn olaf cynhyrchu llif refeniw gan ddatblygwyr/tirfeddianwyr sydd am drawsleoli rhywogaethau i'r safleoedd strategol, gan y bydd trawsleoli o'r fath yn cael ei gefnogi gan swm a gymudir i dalu am gost rheoli'r gwaith.

3. Ffurfiwyd systemau a gweithdrefnau ar gyfer monitro perfformiad y CDLl yn derfynol er mwyn sicrhau bod data'n cael ei gasglu'n effeithiol ac yn effeithlon. Cyflwynwyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol 1af (AMB) i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2017. Mae gwaith eisoes wedi cychwyn ar yr 2il AMB, sydd i'w gyflwyno ym mis Hydref 2018.

4. Cyhoeddwyd yr Astudiaeth flynyddol ar y cyd ynghylch Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS), a dangosodd fod gennym gyflenwad 5 mlynedd o dir. Mae hyn yn tynnu'r pwysau oddi ar y cyngor i gymeradwyo datblygiad mewn ardaloedd y bernir eu bod yn llai addas i'w hailddatblygu.

5. Cyflawnwyd ymrwymiad y Ddeddf Teithio Llesol mewn perthynas â'r Map o'r Llwybrau Presennol (ERM) a'r Map Integredig o'r Rhwydwaith (INM). Yn dilyn cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru i ddiwygio'r ERM, gwnaed gwaith pellach, a chyflwynwyd ERM a newidiwyd ym mis Gorffennaf 2016. Cafodd y Cyngor gymeradwyaeth Weinidogol i'r ERM ym mis Awst 2016.

6. Mae'r ERM wedi cael ei adolygu'n barhaus wrth i'r INM gael ei baratoi. Cafodd yr ERM diwygiedig a'r INM eu paratoi, buont yn destun ymgynghori, fe'u paratowyd yn eu ffurf derfynol, ac fe'u cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2017. Yn dilyn cyfnod o adolygu, cafodd y Cyngor gymeradwyaeth Weinidogol i'r ddau fap ar 27 Chwefror 2018.

7. Mae'r trefniadau rheoli a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â'n rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PRoW) wedi cael eu newid yn dilyn adolygiad o Gynllun Cynnal a Chadw Llwybrau'r Cyngor Cymuned. Mae gwaith wedi cychwyn hefyd ar adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (RoWIP). Mae asesiad ar waith ar hyn o bryd i bennu i ba raddau mae hawliau tramwy yn diwallu anghenion y cyhoedd yn awr ac yn y dyfodol; y cyfleoedd y mae ein hawliau tramwy yn eu darparu ar gyfer ymarfer corff a mathau eraill o hamdden; hygyrchedd ein hawliau tramwy ar gyfer pobl ddall, â golwg rhannol ac eraill sydd â phroblemau symudedd; i ba raddau mae'r RoWIP cyfredol wedi cael ei gyflawni; a chyflwr presennol y rhwydwaith hawliau tramwy. Mae hwn yn ddarn helaeth o waith, a bydd colli'r arian gan y llywodraeth yn cyfyngu arno.

8. Cefnogwyd mentrau ac astudiaethau rhanbarthol ar y cyd, a chyfrannu atynt. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng ngoleuni'r drefn gynllunio newydd yng Nghymru a chyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSiau). Cynhaliwyd gweithdai CDS i drafod cwmpas y pynciau sydd i'w cynnwys a chanfod dyheadau ar gyfer y rhanbarth, a bydd cyfle i astudiaethau ar y cyd gychwyn yn fuan yng nghyswllt Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) ac Astudiaeth Economaidd 'Larger than Local'.

9. Paratowyd y 'Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth' a'i gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2017. Mae'r Cynllun yn amlinellu camau sydd eisoes ar waith gan y Cyngor a chamau pellach a gyflawnir i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd.

10. Mae noddi asedau sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn sicrhau incwm ffioedd wedi cael ei estyn. Yn dilyn ymarferiad caffael llawn, mae'r contract gydag Immediate Solutions wedi cael ei ailstrwythuro a'i estyn. Yn ogystal â'r asedau sefydledig ar y cylchfannau, nodwyd asedau ychwanegol ar gyfer marchnata gan gynnwys arwyddion ffiniol, arwyddion pyrth, ymylon ffyrdd a cholofnau goleuadau.

11. Mae swyddogion wedi llwyddo i sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer nifer o brosiectau Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid a chynlluniau cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys cwblhau'r gyfnewidfa drafnidiaeth ym Mhort Talbot a datblygiadau pwysig sy'n parhau yn Nhŷ Aberafan, Gorsaf Heddlu PT; Ysgol Glanafan, a hefyd ddatblygiadau ysgol newydd yn Sandfields, Margam, Llansawel ac Ystalyfera.

12. Mae CCA cymeradwy ynghylch Rhwymedigaethau Cynllunio wedi cael ei fabwysiadu, ac mae'n cael ei weithredu gan Reoli Datblygu. Cefnogir hyn gan gronfa ddata A106 ymarferol sydd wedi'i diweddaru, strwythur trefnedig ar gyfer rhwymedigaethau Adran 106 i hwyluso mynediad hawdd at wybodaeth allweddol, a rhestr allweddol o flaenoriaethau wrth symud ymlaen. Er gwaethaf hyn, mae adolygiad yn debygol o fod yn ofynnol yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf (fwy na thebyg ochr yn ochr ag Adolygiad y CDLl) i adlewyrchu'r dyheadau ar gyfer annog mwy o ddatblygiad yn CNPT, gan roi sylw i faterion dichonoldeb difrifol sy'n parhau o fewn y Fwrdeistref Sirol.

13. Mae gwelededd a hygyrchedd staff ar y rheng flaen ac ar lefel rheolwyr wedi gwella i sicrhau bod yr holl broblemau'n cael eu nodi yn gynnar, gan hwyluso'r llwybr at benderfyniadau llesol a chyson.

14. Mae newidiadau gweithdrefnol wedi'u gwneud i roi sylw i newidiadau deddfwriaethol, gan gynnwys materion megis Hysbysiadau Penderfyniadau Byw.

15. Mae perfformiad ym maes penderfynu ar geisiadau cynllunio wedi gwella'n sylweddol, er bod hynny yn erbyn cefndir o ostyngiad yn nifer y ceisiadau pwysig. Mae'r awdurdod bellach yn ôl yn y 4ydd safle o blith 25 Awdurdod Cynllunio Lleol Cymru, gan fod penderfyniad prydlon yn cael ei wneud yn achos 96% o geisiadau.

16. Mae amserlen o hyfforddiant i'r Aelodau wedi bod ar waith ers yr adolygiad diwethaf, gan gynnwys: - trefniadau dirprwyo / ymweliadau safle aelodau; Llifogydd; Gorfodi; CDLl / Polisïau; Archaeoleg a Chynllunio. Ar ben hynny, cynhaliwyd hyfforddiant gyda holl aelodau newydd y Pwyllgor Cynllunio.

17. Cymeradwywyd newidiadau i'r trefniadau dirprwyedig yn y Cyngor, ochr yn ochr â newidiadau i brotocol / weithdrefnau siarad cyhoeddus y Cyngor ac ymweliadau safle'r Aelodau. Mae'r newidiadau olaf wedi rhoi sylw i'r pryderon/feirniadaeth adeiladol a gafwyd gan Aelodau etholedig ac aelodau o'r cyhoedd.

18. Mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud ar y gwasanaeth Gorfodi, gan gynnwys cymeradwyo Siarter Orfodi gyntaf y Cyngor, a newidiadau i weithdrefnau er mwyn adlewyrchu'r siarter a'r newidiadau i ddangosyddion adroddiadau Llywodraeth Cymru. Oherwydd materion Ymddeoliad Cynnar/Gwirfoddol, mae hyn hefyd wedi cynnwys ailstrwythuro'r gwasanaeth, gan arwain at benodi Uwch-swyddog Gorfodi Cynllunio newydd, er mwyn sicrhau bod gan y gwasanaeth gorfodi swyddogion â chymwysterau a phrofiad priodol i weithio'n unol â'r safonau a nodwyd yn y Siarter, ac felly sicrhau bod y gwasanaeth yn gorfodi mewn modd priodol er lles ehangach y cyhoedd.

19. Mae ein gwefan wedi cael ei gwella fel bod modd cyflwyno cwynion a gwybodaeth gefnogol yn electronig. Os defnyddir hyn yn y modd mwyaf effeithiol, lle mae achwynwyr yn lanlwytho ffotograffau a ffilm o'r deunydd mae eu cwyn yn ymwneud ag ef, mae'n ein galluogi i flaenoriaethu cwynion a chyflymu'r broses ymchwilio. Gall llawer o gwynion (o'u cyflwyno'n electronig) gael eu hasesu trwy ymarferiad pen desg bellach, yn hytrach na theithio cryn bellter yn aml. Mae hefyd yn golygu bod modd i swyddogion gadarnhau a dorrwyd y ddeddfwriaeth gynllunio heb adael eu desgiau, hyd yn oed, ac yn ei dro mae hynny'n ein galluogi i ganolbwyntio ein hamser a'n hadnoddau ar y cwynion mwy difrifol ar unwaith.

20. Mae'r rhaglen o waith sy'n gysylltiedig â'r Safleoedd Glo Brig ym Mhwll y Dwyrain, Margam a Selar wedi cael ei chynnal, gyda swyddogion yn cydweithio'n agos â gweithredydd y safle a rheoleiddwyr eraill i sicrhau bod y gweithgareddau echdynnu a'r cynlluniau adfer yn parhau i gadw at y targed o ran eu cyflawni, heb effeithio ar yr amgylchedd a'r cymunedau o amgylch, dros ben yr hyn a ragwelwyd adeg y cais cynllunio. Mae'r gwaith adfer ar bob un o'r tri safle yn mynd ymlaen yn dda iawn, a bydd yn gadael etifeddiaeth ar ffurf amgylchedd a adferwyd yn llawn.

21. Mae’r Cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaeth cyn-ymgeisio cadarn ac effeithlon (statudol ac anstatudol) sy'n rhoi dewis o ran lefel y gwasanaeth sydd ar gael i gwsmeriaid, yn ogystal â rhoi cyfle iddynt barhau i gael trafodaethau cyfrinachol gyda'r Cyngor nes bod cais cynllunio'n cael ei gyflwyno. Mae hyn wedi arwain at hwb i incwm sy'n cael ei ddefnyddio i draws-noddi'r lefelau incwm gwael sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio.

Dyma'r cyflawniadau mwyaf arwyddocaol a sicrhawyd yn ystod 2016/17. Yn ogystal â'r uchod, mae ein staff yn parhau i gyflawni swyddogaethau statudol er gwaethaf cyllideb sy'n lleihau ar gyfer cwsmeriaid sydd â disgwyliadau cynyddol uwch. Bydd hyn yn gwaethygu'n raddol yn ystod y blynyddoedd nesaf wrth i'r cyfyngiadau ar gyllidebau gynyddu mwy fyth. Mae rheolwyr o fewn yr uned yn monitro ac yn ceisio rhoi hwb i forâl er mwyn sicrhau bod lefelau salwch yn cael eu cadw mor isel â phosib, a pherfformiad cystal â phosib, er bod hynny'n dod yn fwyfwy heriol.

**Blaenoriaethau wrth symud ymlaen**

Nodwyd nifer o flaenoriaethau a gwelliannau gwasanaeth allweddol ar gyfer eleni, y mae rhai ohonynt yn bwriadu adeiladu ar y llwyddiant a sicrhawyd tan yn ddiweddar, a pharhau i'w wella. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

· **Darparu llwyfan gweithio symudol ar gyfer swyddogion cynllunio a gorfodi er mwyn sicrhau arferion gwaith mwy effeithlon.** Rydym wedi prynu tabledi symudol i swyddogion eu defnyddio ar sail arbrofol. Rhagwelir y bydd modd defnyddio'r rhain i alluogi swyddogion i fewnbynnu data'n uniongyrchol i'n system swyddfa gefn a thynnu lluniau y gellir eu llwytho'n awtomatig i'r system. Ymhen amser y gobaith yw y bydd swyddogion yn gallu llunio braslun

o adroddiad ar y safle. Dylai hyn yn ei dro leihau'r dyblygu a gwella effeithlonrwydd y gwasanaeth. Mae hyn wedi bod yn flaenoriaeth ers peth amser, ond ar ôl arbrofi gyda darn penodol o galedwedd, mae'r arbrofi hwnnw'n parhau. Mae'r gwasanaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd yn ei ffurf ehangach yn ymgorffori'r gwasanaeth Iechyd Amgylcheddol a Safonau Masnach sydd ar hyn o bryd yn peilota gweithio ystwyth i'r awdurdod. Hyd yma, ymddengys bod hyn yn gweithio'n dda i'r cyngor a'r staff. Ymddengys bod y peilot yn dangos bod yr arwynebedd llawr sy'n ofynnol i ddarparu ar gyfer gwasanaethau yn lleihau, ac felly bydd y costau gweithredu sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau hefyd yn lleihau. Yn y tymor hwn, gall arwain at y cyngor yn lleihau ei sylfaen o asedau ac yn sicrhau incwm o ganlyniad. O ran y manteision i'r staff, mae'r cyngor wedi bod yn cael trafferth ers peth amser nawr yn cystadlu â'r sector preifat wrth recriwtio a chadw staff proffesiynol. Mae hyn o ganlyniad i'r tâl cydnabyddiaeth sy'n gysylltiedig â llywodraeth leol. Er bod rhai sectorau swyddi wedi dibynnu ar gymorthdaliadau marchnad yn y gorffennol, cafodd hynny ei ddileu i bob pwrpas ar ôl gwerthuso swyddi. Ymhellach, nid dyna yw'r ateb pan fydd y pwysau'n ymwneud â nifer fawr o sectorau proffesiynol, fel sy'n wir ar hyn o bryd. Yr unig gyfle sydd ar agor i'r cyngor, felly, yw ymdrin yn fwy hyblyg â threfniadau gwaith, gyda golwg ar gefnogi cydbwysedd gwaith a bywyd. Mae'r trefniadau gweithio ystwyth sy'n cael eu peilota ar hyn o bryd yn caniatáu mwy o ryddid i weithio o gartref neu o adeiladau cyhoeddus eraill, ac mae hefyd yn dileu'r cyfyngiadau gweithio o ran oriau craidd. Me hyn yn rhoi cyfle i staff sydd ag ymrwymiadau y tu allan i'r gwaith reoli gofynion eu gwaith o amgylch eu hymrwymiadau eraill, ar yr amod eu bod yn cynnal neu hyd yn oed yn gwella'u heffeithlonrwydd, a'u bod yn parhau i gyflawni anghenion y gwasanaeth yn ôl y galw gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Fel y nodwyd yn gynharach, er ei bod hi'n ddyddiau cynnar, a bod y drefn yn dibynnu ar dechnoleg a mesurau rheoli perfformiad cadarn, mae'r canlyniadau'n gadarnhaol, a blaenoriaeth wrth symud ymlaen yw sicrhau bod y gwasanaeth cynllunio'n mabwysiadu arferion gweithio ystwyth.

- **Rhoi system Gynllunio swyddfa gefn newydd ar waith.** Mae system newydd (IDOX UNI-Form) wedi cael ei chaffael ac mae'n cael ei gosod ar hyn o bryd. Mae'r staff wrthi nawr yn adolygu llif gwaith a gweithdrefnau. Mae'r system yr un fath â'r un a ddefnyddir gan Gyngor Dinas Abertawe, ac er bod Ad-drefnu Llywodraeth Leol i'w weld yn llai o flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, bydd defnyddio'r un system TG yn galluogi'r ddau awdurdod i gydweithio'n agosach i'r dyfodol, ac felly fwyafu unrhyw arbedion effeithlonrwydd cysylltiedig.

- **Bydd swyddogion yn dal i ganolbwyntio'u hamser er mwyn cyflawni'r cynlluniau sy'n rhan o'r Prosiect Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, ac ymhen amser, ail gyfnod y rhaglen hon a'r gwaith sy'n ofynnol i gyflawni blaenoriaethau Tasglu'r Cymoedd.** Y ddau uwch-swyddog presennol fydd yn gyfrifol am gefnogi datblygwyr gyda'u cais cynllunio trwy ymyrraeth gynnar. Bydd y cyfyngiadau a allai atal cynlluniau rhag cael eu cyflwyno yn cael eu

nodi cyn gynted â phosibl, ac ymgysylltir â phartneriaid i gael hyd i atebion dichonadwy a chyflawnadwy er mwyn sicrhau bod y cynlluniau'n cael eu cymeradwyo, gan roi sylw i'r holl ystyriaethau cynllunio perthnasol.

- **Ffocws o'r newydd ar sicrhau Cytundebau Perfformiad Cynllunio (PPA).** Gan fod nifer y ceisiadau pwysig wedi gostwng yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ein gallu i sicrhau incwm wedi lleihau. Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu bod cynlluniau amhreswyl i'w gweld yn cael eu cynnig ar ffurf ymholiadau buddsoddwyr trwy ein tîm adfywio. Bydd angen i'r gwasanaeth Cynllunio wneud yn fawr o'r ymholiadau hyn trwy fynd ati'n rhagweithiol i gysylltu â'r datblygwyr a chynnig cyngor ac arweiniad wedi'u teilwra ar ffurf PPA. Bydd yr incwm hwn, ynghyd â thoriadau i wariant, yn ein galluogi i draws-noddi'r gostyngiad mewn ffïoedd ceisiadau cynllunio sydd wedi'i brofi, ac a fydd yn debygol o barhau, wrth symud ymlaen.

- **Sefydlu gweithdy trawsffiniol i asiantau.** Gan fod llawer o'r asiantau sy'n gweithio yng Nghastell-nedd Port Talbot hefyd wrth eu gwaith yn Abertawe, mae bwriad i gyflwyno gweithdai ar y cyd i asiantau, yn ddelfrydol ddwywaith y flwyddyn. Er mwyn rhoi trefniant o'r fath ar waith, mae angen rhoi sylw i arferion unigol pob awdurdod er mwyn sicrhau cysondeb gweithdrefnau, a diwylliant i ryw raddau, gan sicrhau felly nad yw'r asiantau'n defnyddio'r sesiynau i gwyno am wahanol arferion rhwng y ddau awdurdod. Dylai hynny yn ei dro leihau gallu asiantau i feirniadu gwahanol arferion ac agweddau a defnyddio'r ddau awdurdod yn erbyn ei gilydd.

- **Darparu Gwasanaethau Gwerth Ychwanegol pellach.** Gall hyn gynnwys cyflwyno gwasanaeth ceisiadau cynllunio llwybr cyflym, fydd o bosib yn gweithio ochr yn ochr â'r gwasanaeth rheoli adeiladu i gynnig gwasanaeth siop dan yr unto i berchnogion tai. Byddai cyflwyno gwasanaeth llwybr cyflym ar gyfer datblygu tai yn cynorthwyo i ymateb i ddisgwyliadau cynyddol y cyhoedd o ran ansawdd a chyflymdra'r gwasanaeth. Mae'r is-adran Rheoli Adeiladu yn cystadlu'n weithredol yn erbyn y sector preifat ar ffurf Arolygwyr Cymeradwy, sydd â mwy o hyblygrwydd o ran y gwaith y maent yn ei wneud a'r ffïoedd maen nhw'n eu codi. Pwynt gwerthu unigryw'r Cyngor yw bod gennym swyddogaeth rheoli adeiladu a chynllunio statudol, sef sefyllfa nad yw ar gael i unrhyw un o'r Arolygwyr Cymeradwy. Bydd sefydlu partneriaeth rhwng y ddau wasanaeth i sicrhau bod cynlluniau perchnogion tai yn cael eu llunio i roi sylw i faterion cynllunio a rheoli adeiladu ar yr un pryd yn galluogi datblygwyr i ddechrau ar eu gwaith yn ddi-oed. Bydd cyfuno'r ddau wasanaeth hefyd yn sicrhau bod yr holl faterion yn derbyn sylw o dan un broses. Bydd y broses llwybr cyflym yn denu ffi ychwanegol, a bydd yn cyfrannu at yr agenda fasnacholi y mae'r cyngor yn ceisio'i chyflawni er mwyn lleiafu effaith toriadau parhaus i'r gyllideb.

  Gwasanaeth arall gwerth ychwanegol yw ailgyflwyno gwasanaeth i gefnogi'r broses pridiannau a gwerthu tir, lle caiff eiddo eu hasesu'n fanwl i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chaniatâd cynllunio cymeradwy a roddwyd ar waith. Bu'r gwasanaeth hwn yn gweithredu yn y gorffennol pan oedd swydd

gydymffurfio ar y strwythur. Tynnwyd y swydd hon oddi ar y strwythur o ganlyniad i doriadau cyllideb a diffyg incwm. Os defnyddir dull gwahanol i farchnata'r gwasanaeth ac aildrefnu'r strwythur, gellir ei ailgyflwyno ar gyfer mathau penodol o eiddo. Yn y lle cyntaf bydd hyn ar gyfer eiddo preswyl unigol yn ôl, ac os bydd hynny'n llwyddiannus ac mae capasiti, gellir ei estyn i brosiectau ar raddfa fwy.

- **Gwneud gwaith ar ran awdurdodau cymdogol.** Mae prosiect DNS newydd gychwyn ar y ffin rhwng CNPT a Phowys. Er mai 10% yn unig o'r safle sydd yn CNPT, mae sgiliau a phrofiad yn CNPT i gyflawni'r prosiect. Mae modd rhoi Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) yn ei le i alluogi CNPT i weithredu ar ran y ddau awdurdod. Telir am y gwaith trwy Gytundeb Perfformiad Cynllunio (PPA) a fydd yn cael ei drafod gyda'r datblygwr gan CNPT. Bydd hyn eto yn cyfrannu at agenda fasnacholi'r cyngor.

- **Hwyluso parhad y gwaith ailddatblygu ar Bentref Trefol Coed Darcy.** Mae hwn yn ddatblygiad strategol bwysig ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Mae St Modwen, sy'n berchnogion ar y safle, wedi oedi cyn symud ymlaen gyda chyfnodau'r dyfodol ar y safle datblygu hwn ers sicrhau penderfyniad i ganiatáu amrywiad ar eu cytundeb A106 ym mis Chwefror 2015. Mae'r oedi wedi cael ei gysylltu â dichonoldeb ac er bod y cyngor yn gweithio gyda St Modwen ar hyn o bryd i sicrhau bod A106 yn ceisio sicrhau seilwaith hanfodol yn unig, y man sy'n achosi trafferth o hyd yw darparu tai fforddiadwy. Bydd y cyngor yn parhau i weithio i sicrhau bod y safle'n cael ei gyflawni gyda'r holl seilwaith hanfodol, ond mewn modd sy'n galluogi'r datblygwyr i ddechrau ar y gwaith datblygu.

- **Parhau i weithio ar y CCA eraill sy'n ofynnol i gefnogi'r CDLl.** Bydd y clwstwr olaf o dri CCA yn destun ymgynghori, yn cael eu llunio'n derfynol a'u mabwysiadu (h.y. Yr Amgylchedd Hanesyddol, Coridor Arloesedd Ffordd Fabian a Glannau'r Harbwr a Fframwaith Datblygu Canol Tref Port Talbot). Ar ôl eu mabwysiadu, bydd y CCA yn darparu eglurder pellach i ddatblygwyr a staff Rheoli Datblygu wrth ddehongli polisïau o fewn y CDLl. Bydd hyn yn lleihau risg a dylai annog datblygiad o ansawdd da yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mabwysiadu'r CCA fydd y mesur priodol.

- **Cwblhau a chyflwyno ail Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl (AMB) yn ogystal ag ymateb i'w gasgliadau.** Mae'r ail AMB yn gyfan ac yn barod i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae'n dangos bod 67 o'r 89 dangosydd yn gweithio i gyflawni gweledigaeth ac amcanion y cynllun. Nid yw 4 o'r dangosyddion yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd, ac mae angen trafodaethau pellach gyda swyddogion Rheoli Datblygu er mwyn datrys y materion hyn. Mae 3 o'r dangosyddion yn dangos bod y CCA sydd heb ei gwblhau yn ei le, ac felly dylent gael eu datrys yn ddiweddarach eleni. Mae'r 15 sy'n weddill yn dangos nad yw'r polisi dan sylw mor effeithiol â'r disgwyl gwreiddiol. O ganlyniad, bydd ymchwil a gwaith ymchwilio pellach yn digwydd i ganfod y rheswm am y methiant. Bydd hynny'n derbyn sylw yn y trydydd AMB, a fydd yn cael ei gwblhau ym mis Hydref 2019.

- **Cynnal/cyhoeddi'r Astudiaeth ar y Cyd - Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS).** Ers mabwysiadu'r CDLl, mae'r awdurdod wedi bod mewn sefyllfa lle gallwn lwyddo i ddangos bod gennym gyflenwad pum mlynedd o dir. Cydnabyddir bod hyn yn frwydr yn 2018, ac er mwyn sicrhau bod y cyflenwad hwn yn cael ei gynnal bydd angen canfod y rhesymau pam nad yw'r tir a ddyrannwyd yn cael ei gyflwyno ar gyfer datblygu, a hwyluso mecanweithiau i helpu gyda'r cyflwyno yn y dyfodol. Mae'n bosib iawn y bydd hyn yn arwain at edrych o'r newydd ar yr astudiaeth ddichonoldeb a oedd yn cefnogi'r CDLl. Bydd y gwaith hwn hefyd yn helpu gydag adolygiad y CDLl, y rhagfynegir ar hyn o bryd y bydd yn cychwyn ym mis Ionawr 2020.

- **Gwneud gwelliannau i'r rhwydwaith llwybrau troed a llwybrau beicio er mwyn cynnal y Map o'r Rhwydwaith Integredig (INM).** Mae'r INM yn cyflwyno dyheadau'r Cyngor ar gyfer y 15 mlynedd nesaf, gan nodi naill ai welliannau y gellid eu gwneud i lwybrau presennol neu lwybrau newydd y gellid eu datblygu a'u hychwanegu at y rhwydwaith teithio llesol. Mabwysiadwyd yr INM yn gynharach eleni a nodi nifer o fylchau yn y rhwydwaith. Mae angen symud y gwaith yn ei flaen er mwyn blaenoriaethu'r gwaith o ddarparu seilwaith i lenwi'r bylchau hyn. Bydd hyn yn galw am gynnig llwyddiannus i'r Gronfa Drafnidiaeth Leol (LTF) i ddadansoddi dichonoldeb, gyda golwg ar wneud gwaith ar lawr gwlad i wella'r rhwydwaith wrth symud ymlaen. Fel rhan o'r broses hon, bydd hefyd yn angenrheidiol tynnu sylw Llywodraeth Cymru at gynaliadwyedd tymor hir y rhwydwaith. Er bod ariannu trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gael ar gyfer astudiaethau dichonoldeb ac i gyflawni'r gwelliannau, nid oes arian ar gael i gynnal y rhwydwaith wrth symud ymlaen. Mae'n bosibl y gallai hyn beryglu cyflwyno'r INM petai'r Cyngor yn methu fforddio cynnal y rhwydwaith estynedig.

- **Parhau i gefnogi a chyfrannu at fentrau/astudiaethau cydweithio rhanbarthol.** Yn ei rôl arweiniol/ysgrifenyddol ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru, bydd y Cyngor yn ceisio hwyluso trafodaeth a chynnydd parhaus mewn perthynas â mentrau ac astudiaethau rhanbarthol. Mae trafodaethau helaeth eisoes wedi cychwyn mewn perthynas â chomisiynu astudiaethau ar y cyd i gefnogi Cynllun Datblygu Strategol posibl (CDS) ar draws y rhanbarth a'r CDLl neu elfennau o'r CDLl sy'n ofynnol ar lefel leol. Mae'r comisiynu hwn ar y cyd yn ymwneud ar hyn o bryd ag Asesiad o'r Farchnad Anghenion Tai (HNMA) ac Astudiaeth Gyflogaeth ranbarthol. O ystyried sefyllfa wahanol rhaglenni pob un o'r ACLlau yn y rhanbarth, ni fu modd cysylltu'r ddwy astudiaeth uchod yn un astudiaeth, gan sicrhau dull gweithredu cyson o ran polisi. Fodd bynnag, bydd y ddogfen dendr sy'n cael ei pharatoi yn gofyn bod y dogfennau'n cael eu llunio er mwyn i ACLl fedru eu hintegreiddio, ac felly sicrhau dull gweithredu symud ymlaen o'r Polisi lle bo hynny'n briodol.

- **Parhau i estyn cyfleoedd Noddi Asedau a'r incwm cysylltiedig.** Daeth y broses gaffael i sicrhau partner sector preifat i ben, ac mae'r asedau'n cael eu noddi mewn ymgais i gynhyrchu incwm. Mae hyn wedi cael ymateb cymysg hyd yma, ac mae'n tanberfformio o ran cynhyrchu incwm. Mae'r swyddogion

yn gobeithio sicrhau gwell perthynas waith rhwng cydweithwyr ym maes datblygu economaidd a'r partner sector preifat er mwyn gwella marchnadwyedd ein hasedau, a'r incwm yn ei dro.

- **Cwblhau asesiad o'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus a chychwyn adolygiad o'r 'Cynllun Gwella Hawliau Tramwy' (RoWIP).** Mae'r amserlen ar gyfer y broses hon eisoes wedi'i chytuno. Bydd yn anodd rheoli disgwyliadau'r cyhoedd wrth symud ymlaen gan fod y grant o £50,000 a fu gynt ar gael gan Lywodraeth Cymru i wneud gwaith gwella wedi cael ei golli, sy'n tynnu'n groes i amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Teithio Llesol, sydd fel ei gilydd yn annog teithio cynaliadwy trwy gerdded a beicio. Mae angen canfod ac ystyried dulliau amgen o sicrhau bod y rhwydwaith yn cael ei gynnal a'i wella.

- **Sefydlu gweithgor 'Gwasanaeth Gwneud Iawn am Fioamrywiaeth'** Gan fod nifer o safleoedd datblygu yn y fwrdeistref sirol wedi cael eu gadael i adfywio'n naturiol, ac wedyn yn eu tro wedi dod o ddiddordeb o ran bioamrywiaeth, mae angen ystyried sefydlu ardaloedd gwneud iawn strategol oddi ar y safleoedd, lle gellir trawsleoli rhywogaethau a/neu fuddsoddi er mwyn rhyddhau a mwyafu potensial datblygu safleoedd posibl. Er mwyn hwyluso hyn, mae angen sefydlu gweithgor o swyddogion o'r gwasanaeth cynllunio ac o Ystadau er mwyn nodi tir o eiddo'r cyngor sydd heb werth datblygu, neu werth datblygu cyfyngedig o ran ei ddefnyddio fel safleoedd lletya.

- **Cwblhau Prosiect Partneriaeth 'Mapio Cyfleoedd a Darpariaeth Aml-raddfa'r Seilwaith Werdd' a nodi dull o integreiddio hynny i broses adolygu'r CDLl.** Mae'r gwasanaeth yn rhan o brosiect partneriaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru i fapio ein Seilwaith Werdd a nodi diffygion a chyfleoedd i wella yn eu tro. Mae peilot wedi cychwyn yn y ward a nodwyd fel yr un â'r lefelau mynediad isaf i fannau agored, ac un o'r lefelau uchaf o lygredd aer. Os bydd canlyniadau'r peilot hwn yn gadarnhaol ac mae arian ar gael, y bwriad yw ei estyn i ardaloedd eraill, neu hyd yn ei oed ei gysylltu â'r prosiect Bioamrywiaeth, gan fod y ddwy amcan yn gorgyffwrdd.

- **Dechrau gweithredu'r Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth.** Bydd y gwaith cychwynnol yn canolbwyntio ar asesu risg meysydd gwasanaeth a chytuno ar fethodoleg ar gyfer archwiliad o'r tir sydd ym meddiant y Cyngor. Bydd yr archwiliad yn cynnwys nodi cyfleoedd i wella a mesurau sydd i'w rhoi ar waith os bydd angen lliniaru/gwneud iawn.

- **Cyflwyno rhaglen o weithgareddau llesiant a chadwraeth.** Bydd hyn yn codi proffil yr amgylchedd naturiol a'i fanteision ehangach ac yn gweithio tuag at gyflawni'r amcanion llesiant a geir yn y Cynllun Corfforaethol.

- **Symud ymlaen gyda chyfleoedd ariannu ychwanegol ar gyfer prosiectau lleol a/neu ar raddfa tirlun.** Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar gyflawni

manteision lluosog sy'n deillio o'r amgylchedd naturiol (e.e. Craig Gwladus, Prosiect Partneriaeth y Cymoedd Gwyllt, Cynnig Cronfa Dreftadaeth y Loteri Mawndiroedd Coll), er mwyn cyflawni amcanion llesiant y Cynllun Corfforaethol, yn ogystal â'r amcanion a geir yn y Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth.

## BARN DEFNYDDWYR Y GWASANAETH

Yn 2017-18 cynhaliwyd arolwg boddhad cwsmeriaid oedd yn ceisio asesu barn pobl oedd wedi cael penderfyniad ar gais cynllunio yn ystod y flwyddyn.

Anfonwyd yr arolwg at 315 o bobl, y cyflwynodd 10% ohonynt ymateb cyflawn neu rannol. Daeth mwyafrif yr ymatebion (44%) gan aelodau o'r cyhoedd. Roedd cais cynllunio diweddaraf 9% o'r ymatebwyr wedi cael ei wrthod.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o osodiadau am y gwasanaeth cynllunio. Rhoddwyd yr opsiynau ymateb canlynol iddynt:

- Cytuno'n bendant;
- Tueddu i gytuno;
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno;
- Tueddu i anghytuno; ac
- Anghytuno'n bendant.

Dengys Tabl 1 ganran yr ymatebwyr a ddewisodd naill ai 'tueddu i gytuno' neu 'cytuno'n bendant' yn achos pob gosodiad, a hynny o ran ein hawdurdod cynllunio ni a Chymru.

### Tabl 1: Canran yr ymatebwyr oedd yn cytuno â phob gosodiad, 2017-18

| Ymatebwyr oedd yn cytuno: | % ACLl Castell-nedd Port Talbot | % Cymru |
|---|---|---|
| Bod yr ACLl yn cymhwyso'i reolau cynllunio'n deg ac yn gyson | 60 | 55 |
| Bod yr ACLl wedi rhoi cyngor da iddynt i'w helpu i gyflwyno cais llwyddiannus | 59 | 60 |
| Bod yr ACLl yn rhoi cymorth ar hyd y broses, gan gynnwys gydag amodau | 53 | 52 |
| Bod yr ACLl yn ymateb yn brydlon pan fyddai ganddyn nhw gwestiynau | 65 | 62 |
| Eu bod yn cael gwrandawiad ynghylch eu cais | 61 | 60 |
| Eu bod yn derbyn gwybodaeth reolaidd ynghylch eu cais | 61 | 52 |
| Eu bod yn gyffredinol fodlon ar sut bu'r ACLl yn delio gyda'u cais. | 63 | 63 |

Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr ddewis tri o nodweddion y gwasanaeth cynllunio, o restr, a fyddai yn eu barn nhw'n eu helpu i gyflawni datblygiadau llwyddiannus. Dengys Ffigur 1 ganran yr ymatebwyr a ddewisodd bob un o'r nodweddion fel un o'u tri dewis. I ni, 'cael penderfyniad cyflym ar gais a gyflwynwyd' oedd y dewis mwyaf poblogaidd.

### Ffigur 1: Nodweddion gwasanaeth cynllunio da, 2017-18

Ffigur 1

Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys:

- “Cawson ni wasanaeth o'r radd flaenaf.”
- “Cefais fod fy mhrofiad gydag adran Gynllunio CNPT yn un proffesiynol iawn, oedd o gymorth mawr."

- "Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu gwelliant aruthrol yn y gwasanaeth a gynigir."
- "Roedd angen newidiadau sylweddol i'n cais, yn unol â gofynion y cleient. Bu'r ACLl yn gweithredu mewn dull cydweithredol a hyblyg i ddarparu ar gyfer hyn"
- "Pan fydda i mewn cysylltiad â Swyddogion dros y ffôn neu'n bersonol, rwy'n cael bod eu cyngor yn gyson a bod ganddyn nhw lefel uchel o broffesiynoldeb.

**EIN PERFFORMIAD YN 2017-18**

Mae'r adran hon yn manylu ar ein perfformiad yn 2017-18. Mae'n ystyried dangosyddion y Fframwaith Perfformiad Cynllunio a data arall sydd ar gael er mwyn helpu i greu darlun cynhwysfawr o berfformiad. Lle bo hynny'n briodol, rydyn ni'n cymharu ein perfformiad ni â darlun Cymru gyfan.

Mae perfformiad yn cael ei ddadansoddi ar draws pum agwedd allweddol darparu'r gwasanaeth cynllunio, fel y nodwyd yn y Fframwaith Perfformiad Cynllunio:

- Creu'r cynllun;
- Effeithlonrwydd;
- Ansawdd;
- Ymgysylltu; a
- Gorfodi.

## Creu'r Cynllun

Ar 31 Mawrth 2018, roeddem ni'n un o 22 ACLl oedd â chynllun datblygu cyfredol ar waith.

Yn ystod cyfnod yr Adroddiad Cynllunio Blynyddol nodwyd bod cyflenwad 5.3 blynedd o dir ar gyfer tai wedi'i nodi, sy'n golygu mai ni yw un o'r 7 ACLl yng Nghymru sydd â'r cyflenwad gofynnol o 5 mlynedd.

## Effeithlonrwydd

Yn 2017-18, penderfynwyd ar 804 o geisiadau cynllunio, y cymerodd pob un ohonynt, ar gyfartaledd, 76 diwrnod (ychydig o dan 11 wythnos) i benderfynu arnynt. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 81 diwrnod (12 wythnos) ledled Cymru. Dengys Ffigur 2 yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd gan bob ACLl i benderfynu ar gais yn ystod y flwyddyn.

**Ffigur 2: amser a gymerwyd ar gyfartaledd (diwrnodau) i benderfynu ar geisiadau, 2017-18**

Ffigur 2

Penderfynwyd ar 97% o'r holl geisiadau cynllunio o fewn y terfynau amser gofynnol. Hon oedd y bedwaredd ganran uchaf yng Nghymru ac roeddem ni'n un o 22 ACLl a oedd wedi cyrraedd y targed o 80%.

Dengys Ffigur 3 ganran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn y terfynau amser gofynnol ar draws y prif fathau o gais ar gyfer ein ACLl ninnau a Chymru. Mae'n dangos ein bod wedi penderfynu ar 100% o geisiadau perchnogion tai o fewn y terfynau amser gofynnol. Penderfynwyd hefyd ar 83% o'r ceisiadau Caniatâd Adeilad Rhestredig o fewn y terfynau amser gofynnol.

### Ffigur 3: Canran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn y terfynau amser gofynnol, yn ôl eu math, 2017-18

Ffigur 3

Rhwng 2016-17 a 2017-18, fel mae Ffigur 4 yn dangos, cododd canran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt gennym o fewn y terfynau amser gofynnol o 96%. Gwelwyd cynnydd yng Nghymru hefyd eleni.

### Ffigur 4: Canran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn y terfynau amser gofynnol

Ffigur 4

Yn ystod yr un cyfnod: Cododd nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gennym ryw fymryn;

- Gostyngodd nifer y ceisiadau a benderfynwyd gennym ryw fymryn; a
- Gostyngodd nifer y ceisiadau a gymeradwywyd gennym.

### Ceisiadau Pwysig

Penderfynwyd ar 13 o geisiadau cynllunio pwysig yn 2017-18, yr oedd 15% ohonynt (2 gais) yn destun Asesiad Effaith Amgylcheddol. Cymerwyd 573 o ddiwrnodau (82 wythnos) ar gyfartaledd i benderfynu ar bob cais (gan gynnwys y rhai oedd yn destun Asesiad Effaith Amgylcheddol). Mae'r ffigur hwn wedi cael ei waethygu gan hyd y cyfnod a gymerwyd i benderfynu ar 4 cais dadleuol, y gohiriwyd pob un ohonynt oherwydd oedi gan yr ymgeiswyr yn hytrach nag oedi wrth i swyddogion brosesu'r ceisiadau. Fel y dengys Ffigur 5, hwn oedd y cyfnod cyfartalog hwyaf a gymerwyd o blith holl ACLl Cymru.

### Ffigur 5: amser a gymerwyd ar gyfartaledd (diwrnodau) i benderfynu ar gais pwysig, 2017-18

Ffigur 5

Penderfynwyd ar 69% o'r ceisiadau pwysig hyn o fewn y terfynau amser gofynnol, ac mae hynny'n cyfateb i'r cyfartaledd ledled Cymru.

Dengys Ffigur 6 ganran y ceisiadau pwysig y penderfynwyd arnynt o fewn y terfynau amser gofynnol yn ôl y math o gais pwysig. Penderfynwyd ar 45% o'n ceisiadau

pwysig 'safonol', h.y. y rhai nad oedd angen Asesiad Effaith Amgylcheddol ar eu cyfer, o fewn y terfynau amser gofynnol yn ystod y flwyddyn.

**Ffigur 6: Canran y ceisiadau Pwysig y penderfynwyd arnynt o fewn y terfynau amser gofynnol yn ystod y flwyddyn, yn ôl eu math, yn 2017-18**

Ffigur 6

Ar ben hynny, penderfynwyd ar 4 cais pwysig oedd yn destun Cytundeb Perfformiad Cynllunio (PPA) o fewn y terfynau amser gofynnol yn ystod y flwyddyn.

Ers 2016-17 roedd canran y ceisiadau pwysig y penderfynwyd arnynt o fewn y terfynau amser gofynnol wedi gostwng o 78%. Yn yr un modd, gostyngodd nifer y ceisiadau pwysig y penderfynwyd arnynt, tra cododd nifer y ceisiadau oedd yn destun Asesiad Effaith Amgylcheddol y penderfynwyd arnynt yn ystod y flwyddyn.

Dengys Ffigur 7 y tueddiad yng nghanran y ceisiadau cynllunio mawr y penderfynwyd arnynt o fewn y terfynau amser gofynnol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a sut mae hynny'n cymharu â Chymru.

**Ffigur 7: Canran y ceisiadau cynllunio mawr y penderfynwyd arnynt o fewn y terfynau amser gofynnol**

Ffigur 7

Yn ystod yr un cyfnod:

- Cododd canran y mân geisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn y terfynau amser gofynnol o 97% i 98%;
- Cododd canran y ceisiadau gan berchnogion tai y penderfynwyd arnynt o fewn y terfynau amser gofynnol o 99% i 100%; ac
- Arhosodd canran y ceisiadau eraill y penderfynwyd arnynt o fewn y terfynau amser gofynnol yr un fath, sef 95%.

## Ansawdd

Yn 2017-18, gwnaeth ein Pwyllgor Cynllunio 24 penderfyniad ar geisiadau cynllunio, oedd yn cyfateb i 3% o'r holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt. Ledled Cymru gwnaed 7% o'r holl benderfyniadau ar geisiadau cynllunio gan y pwyllgor cynllunio.

Aeth 0% o'r penderfyniadau hyn gan aelodau yn erbyn cyngor swyddogion. Roedd hyn yn cymharu â 9% o'r penderfyniadau a wnaed gan aelodau ledled Cymru. Roedd hyn yn cyfateb i 0% o'r holl benderfyniadau ceisiadau cynllunio a aeth yn erbyn cyngor swyddogion; 0.6% ledled Cymru.

Yn 2017-18 daeth 13 apêl i law yn erbyn ein penderfyniadau cynllunio, y bu'r Arolygiaeth Gynllunio yn penderfynu arnynt wedi hynny, ac roedd y nifer hwnnw'n cyfateb i 1.6 o apeliadau am bob 100 o geisiadau a dderbyniwyd. Ledled Cymru

daeth 2.2 apêl i law am bob 100 o geisiadau.  Dengys Ffigur 8 sut mae swm yr apeliadau a ddaeth i law wedi newid ers 2016-17 a sut mae hynny'n cymharu â Chymru.

**Ffigur 8: Nifer yr apeliadau a dderbyniwyd fesul 100 o geisiadau cynllunio**

Ffigur 8

Yn ystod yr un cyfnod, gostyngodd canran y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd o 84% i 80%.

O'r 13 apêl y penderfynwyd arnynt yn ystod y flwyddyn, gwrthodwyd 62%.  Fel y dengys Ffigur 9, roedd hyn yn is na chanran yr apeliadau a wrthodwyd ledled Cymru gyfan ac roedd o dan y targed o 66%. Rhaid cydnabod, fodd bynnag, i ni gael nifer o benderfyniadau rhanedig yn ystod y cyfnod hwn, er enghraifft, cawsom ambell apêl yn erbyn amodau lluosog, lle roedd yr apelydd am geisio dileu nifer o amodau, ac er i PINs ganiatáu i ambell amod gael ei ddileu, cadwyd y mwyafrif llethol, a chefnogwyd rhesymau'r swyddogion dros eu gosod yn eu lle.  Serch hynny, at ddibenion ystadegol, bernir bod y rhain yn apeliadau  a ganiateir at ddibenion Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

**Ffigur 9: Canran yr apeliadau a wrthodwyd, 2017-18**

Ffigur 9

Yn ystod 2017-18 ni chadarnhawyd unrhyw geisiadau am gostau mewn apêl adran 78.

## Ymgysylltu

Rydym ni'n:

- un o 24 ACLl a roddodd ganiatâd i aelodau o'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio; ac yn
- un o 21 ACLl oedd â chofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio.

Fel y dengys Tabl 2, roedd 59% o'r ymatebwyr i'n harolwg boddhad cwsmeriaid yn 2017-18 yn cytuno bod yr ACLl wedi rhoi cyngor da i'w helpu i gyflwyno cais llwyddiannus.

**Tabl 2: Adborth ein harolwg boddhad cwsmeriaid yn 2017-18**

| Ymatebwyr oedd yn cytuno bod: | % ACLl Castell-nedd Port Talbot | % Cymru |
|---|---|---|
| Yr ACLl yn rhoi cyngor da i'w helpu i gyflwyno cais llwyddiannus | 59 | 60 |
| Eu bod wedi cael gwrandawiad ynghylch eu cais | 61 | 60 |

## Gorfodi

Yn 2017-18 buom ni'n ymchwilio i 256 o achosion gorfodi, oedd yn cyfateb i 1.8 fesul 1,000 o boblogaeth. Roedd hyn yn cymharu â 2.0 o achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt fesul 1,000 o boblogaeth ledled Cymru.
Ymchwiliwyd i 95% o'r achosion gorfodi hyn o fewn 84 diwrnod. Ledled Cymru ymchwiliwyd i 81% o fewn 84 diwrnod. Dengys Ffigur 10 ganran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fenw 84 diwrnod ar draws holl ACLlau Cymru.

### Ffigur 10: Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod, 2017-18

Ffigur 10

Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i gymryd camau gorfodi cadarnhaol oedd 188 o ddiwrnodau.

ATODIAD A - FFRAMWAITH PERFFORMIAD

TROSOLWG

| MESUR | DA | GWEDDOL | GWELLA | | CYFARTALEDD CYMRU | ACLl Castell-nedd Port Talbot Y LLYNEDD | ACLl Castell-nedd Port Talbot ELENI |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llunio'r cynllun** | | | | | | | |
| A oes Cynllun Datblygu cyfredol ar waith oddi mewn i gyfnod y cynllun? | Oes | | Nac oes | | Oes | Oes | Oes |
| Gwyriad y gwaith o baratoi'r CDLl o'r dyddiadau a bennwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol, mewn misoedd | <12 | 13-17 | 18+ | | 67 | Amh | Amh |
| Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cynhyrchu ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu | Ydynt | | Nac ydynt | | Ydynt | Ydynt | Ydynt |
| Cyflenwad cyfredol yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dir ar gyfer tai, mewn blynyddoedd | >5 | | <5 | | 7 o 25 | 5 | 5 |
| **Effeithlonrwydd** | | | | | | | |
| Canran y ceisiadau "pwysig" y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol | >60 | 50-59.9 | <50 | | 67.4 | 78 | 69 |
| Yr amser a gymerwyd, ar gyfartaledd, i benderfynu ar geisiadau "pwysig", mewn diwrnodau | Heb bennu | Heb bennu | Heb bennu | | 240.1 | 448 | 573 |
| Canran yr holl geisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol | >80 | 70-79.9 | <70 | | 88.5 | 96 | 97 |
| Yr amser a gymerwyd, ar gyfartaledd, i benderfynu ar yr holl geisiadau, mewn diwrnodau | <67 | 67-111 | 112+ | | 80.7 | 72 | 78 |
| Canran y ceisiadau Caniatâd ar gyfer Adeiladau Rhestredig y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau gofynnol o amser | Heb bennu | Heb bennu | Heb bennu | | 65.4 | - | 83 |
| **Ansawdd** | | | | | | | |
| Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn erbyn cyngor swyddogion | <5 | 5-9 | 9+ | | 8.6 | 8 | 0 |
| Canran yr apeliadau a wrthodwyd | >66 | 55-65.9 | <55 | | 62.6 | 63 | 62 |

| MESUR | DA | GWEDDOL | GWELLA | CYFARTALEDD CYMRU | ACLl Castell-nedd Port Talbot Y LLYNEDD | ACLl Castell-nedd Port Talbot ELENI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gadarnhawyd yn y cyfnod adrodd | 0 | 1 | 2+ | 0 | 1 | 0 |
| **Ymgysylltiad** | | | | | | |
| Ydy'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio? | Ydy | | Nac ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i ddarparu cyngor i aelodau o'r cyhoedd? | Oes | | Nac oes | Oes | Oes | Oes |
| Oes gan wefan yr Awdurdod Cynllunio Lleol gofrestr ar-lein o geisiadau gynllunio, y gall aelodau o'r cyhoedd gael mynediad iddi, olrhain eu cynnydd (a gweld eu cynnwys)? | Oes | Rhannol | Nac oes | Oes | Oes | Oes |
| **Gorfodi** | | | | | | |
| Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt (lle penderfynwyd a fu achos o dorri'r rheolau cynllunio, ac os felly, lle penderfynwyd a yw camau gorfodi'n briodol) o fewn 84 diwrnod | >80 | 70-79.9 | <70 | 80.6 | 98 | 95 |
| Amser a gymerwyd ar gyfartaledd ar gyfer camau gorfodi cadarnhaol | Heb bennu | Heb bennu | Heb bennu | 184.6 | 101 | 188 |

**ADRAN 1 – LLUNIO'R CYNLLUN**

| Dangosydd | 01. A oes Cynllun Datblygu cyfredol ar waith oddi mewn i gyfnod y cynllun? | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen Gwella"** |
| Mae cynllun datblygu (CDLl neu CDU) ar waith ac oddi mewn i gyfnod y cynllun. | AMH | Nid oes cynllun datblygu ar waith (gan gynnwys lle mae'r cynllun wedi dod i ben) |

| Perfformiad yr Awdurdod | Oes |
|---|---|

Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor (2011-2026) ym mis Ionawr 2016. Erbyn diwedd Mawrth 18 roedd y Cyngor wedi mabwysiadu 12 dogfen Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) allweddol, a dim ond 4 arall oedd i ddod.

Yn ogystal â'r uchod, cyflwynwyd ein Hadroddiad Monitro Blynyddol cyntaf i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2017, ac nid yw'r Adolygiad cyntaf i gael ei gynnal tan 2020.

| Dangosydd | 02. Gwyriad y gwaith o baratoi'r CDLl o'r dyddiadau a bennwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol, mewn misoedd | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen Gwella"** |
| Mae'r CDLl yn cael ei symud ymlaen o fewn 12 mis i'r | Mae'r CDLl yn cael ei symud ymlaen o fewn 12-18 mis i'r | Mae'r CDLl yn cael ei symud ymlaen dros 18 mis yn hwyrach |

| | | |
|---|---|---|
| dyddiadau a bennwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol | dyddiadau a bennwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol | na'r dyddiadau a bennwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol |

| **Perfformiad yr Awdurdod** | AMH |
|---|---|
| | |

| **Dangosydd** | **03. Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cynhyrchu ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu** | |
|---|---|---|
| **“Da”** | | **“Angen Gwella”** |
| Mae'n bryd cael AMB, ac mae wedi cael ei baratoi | | Mae'n bryd cael AMB, ond nid yw wedi cael ei baratoi |

| **Perfformiad yr Awdurdod** | Adolygiad cyntaf wedi'i gyflwyno |
|---|---|
| Cyflwynwyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf ar 31 Hydref 2017, a dangosodd fod y polisïau'n llwyddo i gyflawni gweledigaeth ac amcanion y CDLl bryd hynny.<br>Mae'r ail Adroddiad Monitro Blynyddol i gael ei gyflwyno ar yr 31 Hydref 2018. | |

| **Dangosydd** | **04. Cyflenwad cyfredol yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dir ar gyfer tai, mewn blynyddoedd** | |
|---|---|---|
| **“Da”** | | **“Angen Gwella”** |
| Mae gan yr awdurdod gyflenwad tir o fwy na 5 mlynedd ar gyfer tai | | Mae gan yr awdurdod gyflenwad tir o lai na 5 mlynedd ar gyfer tai |

| Perfformiad yr Awdurdod | 5.3 |
|---|---|

Mae'r Awdurdod Lleol wedi llwyddo i ddangos bod digon o dir ar gael gennym ar gyfer tai, ond mae hynny'n dibynnu ar y nifer cyfyngedig o adeiladwyr tai sylweddol yn cyflawni'r caniatâd cynllunio a roddwyd iddynt.

Cydnabyddir bod materion dichonolrwydd sylweddol yn y fwrdeistref sirol, a bod datblygwyr yn cael trafferth darparu'r seilwaith hanfodol sy'n ofynnol i gefnogi datblygiadau tai ochr yn ochr â sicrhau elw i ddatblygwyr.

Rhagwelir y bydd y broblem hon yn parhau i'r dyfodol. Serch hynny, mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau buddsoddiad gan dasglu'r Cymoedd i helpu i gyflawni datblygiadau yng nghymunedau'r cymoedd lle mae problem dichonolrwydd ar ei gwaethaf.

Mae'n bosibl iawn hefyd y gallai hynny arwain at yr angen i gomisiynu asesiad dichonolrwydd newydd, cyn adolygu'r CDLl, gwaith sydd i gychwyn ym mis Ionawr 2020. Gellir barnu bod asesiad dichonolrwydd o'r fath yn ystyriaeth gynllunio bwysig wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

**ADRAN 2 - EFFEITHLONRWYDD**

| Dangosydd | 05. Canran y ceisiadau "pwysig" y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol | |
|---|---|---|
| **“Da”** | **“Gweddol”** | **“Angen Gwella”** |
| Penderfynir ar fwy na 60% o'r ceisiadau o fewn y cyfnod | Penderfynir ar 50-60% o'r ceisiadau o fewn y cyfnod | Penderfynir ar lai na 50% o'r ceisiadau o fewn y cyfnod |

| | | |
|---|---|---|
| amser statudol | amser statudol | amser statudol |

| Perfformiad yr Awdurdod | 69 |
|---|---|
| Mae'r perfformiad wedi gostwng rhywfaint o gymharu â'r llynedd. Mae hynny wedi digwydd o ganlyniad i gymhlethdod y ceisiadau sy'n cael eu hystyried a'r cynnydd dros dro, a ddilynwyd gan ostyngiad, yn nifer yr uwch-swyddogion sy'n gyfrifol am ganolbwyntio ar geisiadau o'r fath a sicrhau eu bod yn dilyn llwybr cyflym drwy'r broses. Roedd angen y gostyngiad hwn i sicrhau arbedion o fewn y gwasanaeth, ac mae hynny o ganlyniad i gyllideb sy'n lleihau'n barhaus. | |

| Dangosydd | 06. Yr amser a gymerwyd, ar gyfartaledd, i benderfynu ar geisiadau "pwysig", mewn diwrnodau | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen Gwella"** |
| Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi |

| Perfformiad yr Awdurdod | 573 |
|---|---|
| Mae'n bwysig nodi bod y ffigurau hyn yn cynnwys nifer o geisiadau sy'n hen iawn, ac a fu yn nwylo'r awdurdod ers nifer o flynyddoedd, sydd felly wedi gwyro'r ffigurau.<br><br>Er bod yr Awdurdod yn gwneud ei orau i benderfynu ar geisiadau cyn gynted â phosibl, mae'r cyfyngiadau uchod yn golygu ei bod yn anodd iawn, ac yn hytrach na gwrthod ceisiadau adeg eu cyflwyno, rydym yn caniatáu i ddatblygwyr roi sylw i'r cyfyngiadau a thrwy hynny yn gwella'r cyfleoedd i ddatblygwyr fedru cyflawni eu datblygiadau. Adlewyrchir hyn yn ein cyfradd gymeradwyo gyffredinol o 96%. | |

Rydym hefyd wedi delio gyda nifer o geisiadau hen iawn eleni, lle bu oedi ers cryn amser. Ymhlith yr enghreifftiau o hynny mae 2 gynllun mwynau a fu yn nwylo'r awdurdod ers 2747 a 1570 diwrnod yn eu tro, ynghyd â chynllun preswyl ar safle a ddyrannwyd a datblygiad fferm wynt a oedd hefyd wedi bod o dan sylw am gyfnod eithafol. Roedd y rheswm am yr oedi ym mhob achos yn ymwneud â'r ffaith bod y datblygwyr yn methu â chyflwyno gwybodaeth y gofynnwyd amdani. Er y derbynnir bod yr awdurdod yn gallu gwrthod ceisiadau o dan yr amgylchiadau hynny, mae'n well gan yr awdurdod hwn weithio gyda datblygwyr fel bod modd cyflwyno safleoedd, yn hytrach na gwrthod ceisiadau a chyrraedd targedau.

Mae mater 'amser ar gyfartaledd' wedi bod yn destun trafod helaeth gan POSW, grŵp y Rheolwyr Datblygu a'r tasglu a fu'n asesu monitro perfformiad yn gyffredinol. Gall defnyddio 'amser ar gyfartaledd' guddio'r ffaith bod mwyafrif llethol y ceisiadau'n mynd trwy'r broses gynllunio mewn cyfnod rhesymol o amser. O ganlyniad, mae'n bosibl iawn y byddai defnyddio ffigurau canolrif neu ddileu'r 5% uchaf ac isaf o geisiadau o'r ffigurau cyfartalog yn caniatáu i'r cyfartaleddau fod yn adlewyrchiad tecach o'r darlun perfformiad cyffredinol. Mae angen rhoi sylw pellach i'r mater hwn.

| **Dangosydd** | **07. Canran yr holl geisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol** | |
|---|---|---|
| **“Da”** | **“Gweddol”** | **“Angen Gwella”** |
| Penderfynir ar fwy nag 80% o'r ceisiadau o fewn y terfyn amser statudol | Penderfynir ar 70-80% o'r ceisiadau o fewn y cyfnod amser statudol | Penderfynir ar lai na 70% o'r ceisiadau o fewn y cyfnod amser statudol |

| Perfformiad yr Awdurdod | 97 |
|---|---|
| Mae'r perfformiad gwell hwn wedi digwydd wrth i ddatblygwyr gydnabod nad yw eu ceisiadau'n rhai syml, ac felly maent wedi cytuno i 'Estyniadau Amser'.<br><br>Mae'r cyfyngiad mwyaf ar ddatblygiadau yn yr awdurdod hwn fel arfer yn gysylltiedig â llifogydd, tir halogedig a bioamrywiaeth, sydd fel ei gilydd yn cymryd amser i'w datrys yn iawn o ran cyflwyniadau derbyniol (mae hyn yn arbennig o wir yn achos bioamrywiaeth, lle rheolir cyfnodau arolygon gan y tymhorau). Mae hefyd yn cymryd amser hir i ymgyngoreion mewnol ac allanol eu hystyried, gan fod eu hadnoddau hwythau'n gyfyngedig. | |

| Dangosydd | 08. Yr amser a gymerwyd, ar gyfartaledd, i benderfynu ar yr holl geisiadau, mewn diwrnodau | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen Gwella"** |
| Llai na 67 diwrnod | Rhwng 67 a 111 diwrnod | 112 diwrnod neu fwy |

| Perfformiad yr Awdurdod | 78 |
|---|---|
| Ni oedd un o'r awdurdodau cyntaf yng Nghymru i fesur amserau o'r dechrau i'r diwedd, yn dilyn adolygiad systemau yn ôl yn 2008, pryd y barnwyd ei bod yn bwysig cydnabod faint o amser a gymerwyd i gofrestru cais. Mae hyn yn dal i gael ei ystyried yn bwysig oherwydd ansawdd gwael nifer fawr o'r cyflwyniadau. Mae'r gweithdrefnau dilysu cenedlaethol wedi gwella'r sefyllfa hon, ond mae ein cwsmeriaid yn cael eu bod yn rhy ffurfiol. Rydym yn sicrhau felly bod llythyr/e-bost heb jargon a/neu alwad ffôn esboniadol yn cyd-fynd â'r hysbysiadau a anfonwn at ymgeiswyr, er mwyn sicrhau bod yr ymgeiswyr yn gwybod yn union beth mae angen iddyn nhw ei wneud er mwyn cyflwyno cais cynllunio dilys. | |

| |
|---|
| Bydd y gwasanaeth cyn-ymgeisio yn helpu'r sefyllfa hon i wella ymhellach, ond er ein bod yn annog pob darpar-ddatblygwr i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, mae'r ffaith bod ffïoedd am ddefnyddio'r gwasanaeth yn golygu bod llawer yn anfodlon ei ddefnyddio. |

| **Dangosydd** | **08a. Canran y ceisiadau Caniatâd ar gyfer Adeiladau Rhestredig y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau gofynnol o amser** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen Gwella"** |
| Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi |

| **Perfformiad yr Awdurdod** | 83 |
|---|---|
| Nid oes gan yr awdurdod swyddog arbenigol sydd â phrofiad, sgiliau a chymwysterau cysylltiedig â'r amgylchedd adeiledig hanesyddol. Cawn ymweliad bob ychydig o fisoedd gan un o swyddogion CADW, sy'n gallu darparu cyngor cyffredinol a phenodol ar brosiectau, ond ar wahân i hynny, rydym ni'n dibynnu ar brofiad swyddogion Rheoli Datblygu sydd i bob pwrpas yn dysgu wrth eu gwaith. O ystyried yr hyn a nodwyd eisoes, mae'r perfformiad a gyflawnwyd yn gadarnhaol iawn. | |

**ADRAN 3 - ANSAWDD**

| **Dangosydd** | **09. Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn erbyn cyngor swyddogion** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen Gwella"** |
| Llai na 5% o'r penderfyniadau | Rhwng 5% a 9% o'r penderfyniadau | 9% neu fwy o'r penderfyniadau |

| **Perfformiad yr Awdurdod** | 0 |
| --- | --- |
| Mae perthynas waith gref gan Swyddogion ac Aelodau CNPT. Mae Cadeirydd Cynllunio yn annog yr Aelodau i siarad â'r swyddogion am unrhyw bryderon sydd ganddynt yn gynnar, a thrwy hynny fanteisio ar y cyfle i roi sylw i'r pryderon hynny'n gynnar yn y broses, yn hytrach nag aros nes bod y cais yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor.<br><br>Mae'r berthynas waith gref hon hefyd yn golygu bod modd gwneud y mwyafrif llethol o benderfyniadau o dan bwerau dirprwyedig, sydd yn ei dro yn mwyafu effeithlonrwydd y broses benderfynu. | |

| **Dangosydd** | **10. Canran yr apeliadau a wrthodwyd** | |
| --- | --- | --- |
| **“Da”** | **“Gweddol”** | **“Angen Gwella”** |
| Mae mwy na 66% (dau draean) o'r penderfyniadau cynllunio yn cael eu hamddiffyn yn llwyddiannus mewn apêl | Mae rhwng 55% a 66% o'r penderfyniadau cynllunio yn cael eu hamddiffyn yn llwyddiannus mewn apêl | Mae llai na 55% o'r penderfyniadau cynllunio yn cael eu hamddiffyn yn llwyddiannus mewn apêl |

| **Perfformiad yr Awdurdod** | 62 |
| --- | --- |
| Mae hyn yn debyg i'r perfformiad a gyflawnwyd y llynedd ac yn dangos cadernid proses gwneud penderfyniadau'r Awdurdod. Mae union nifer yr apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan yr awdurdod hwn yn fach iawn, ac o'r herwydd gall amrywiadau bach gael effaith aruthrol ar gyfraddau'r canrannau. Yn ystod y cyfnod hwn llwyddodd yr awdurdod i amddiffyn 8 allan o 13 penderfyniad. Petai apeliadau yn erbyn achosion gorfodi yn cael eu cynnwys yn y ffigur hwn | |

byddai'r perfformiad yn codi i 67%, a fuasai'n uwch na 66%, ac felly yn ein rhoi yn y band gwyrdd.

| Dangosydd | 11. Y ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gadarnhawyd yn y cyfnod adrodd | |
|---|---|---|
| **“Da”** | **“Gweddol”** | **“Angen Gwella”** |
| Ni ddyfarnwyd costau yn erbyn yr awdurdod hwn mewn apêl | Dyfarnwyd costau yn erbyn yr awdurdod mewn un achos apêl | Dyfarnwyd costau yn erbyn yr awdurdod mewn dau achos apêl neu fwy |

| Perfformiad yr Awdurdod | 0 |
|---|---|
| Mae'r diffyg costau a ddyfarnwyd yn erbyn y cyngor yn arwydd pellach o gadernid y broses o wneud penderfyniadau. | |

**ADRAN 4 – YMGYSYLLTIAD**

| Dangosydd | 12. Ydy'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio? | |
|---|---|---|
| **“Da”** | | **“Angen Gwella”** |
| Gall aelodau o'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio | | Ni all aelodau o'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio |

| Perfformiad yr Awdurdod | Ydy |
| --- | --- |
| Ers 2014, mae aelodau o'r cyhoedd wedi cael caniatâd i annerch y Pwyllgor Cynllunio. Gwaetha'r modd, er i ni roi cyhoeddusrwydd i'r cyfle hwn, mae nifer y rhai sydd wedi manteisio arno wedi bod yn isel iawn. Mae'r polisi a'r protocol wedi cael eu diweddaru er mwyn nodi'n benodol allu cynghorau cymuned, yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd, i annerch y pwyllgor. Mae hyn hefyd wedi methu â chynyddu'r ymgysylltu â'r cyhoedd na'r cynghorau cymuned. | |

| **Dangosydd** | **13. Oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i ddarparu cyngor i aelodau o'r cyhoedd?** | |
| --- | --- | --- |
| **"Da"** | | **"Angen Gwella"** |
| Gall aelodau o'r cyhoedd ofyn am gyngor gan swyddog cynllunio ar ddyletswydd | | Nid oes swyddog cynllunio ar ddyletswydd ar gael |

| Perfformiad yr Awdurdod | Oes |
| --- | --- |
| Mae pob swyddog ar gael i'r cyhoedd pan fyddant yn y swyddfa. Rydym ni'n ymwybodol bod gan lawer o awdurdodau swyddog penodol sydd ar rota i ateb unrhyw ffonau yn ystod cyfnodau penodol o'r dydd. Er y gall hyn fod yn briodol ar gyfer ymholiadau cyffredinol, ni fyddant yn gallu ateb ymholiadau ynghylch ceisiadau penodol heb gyfeirio at y swyddog achosion. Mae'r atgyfeiriad hwn yn golygu bod o leiaf ddau swyddog yn ymwneud â delio gyda'r ymholiad, sydd fel petai'n diddymu'r nod o fwyafu effeithlonrwydd y gwasanaeth. O ganlyniad mae gan bob cwsmer fynediad at eu swyddog achosion yn ystod oriau'r swyddfa. Os yw'r swyddog achosion allan ar y safle neu ar wyliau, bydd cydweithiwr yn cynorthwyo lle bo modd, gan fwyafu ansawdd y gwasanaeth i'r cyhoedd. | |

| Dangosydd | **14. Oes gan wefan yr Awdurdod Cynllunio Lleol gofrestr ar-lein o geisiadau gynllunio, y gall aelodau o'r cyhoedd gael mynediad iddi, olrhain eu cynnydd (a gweld eu cynnwys)?** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen Gwella"** |
| Mae'r holl ddogfennau ar gael ar-lein | Dim ond manylion y cais cynllunio sydd ar gael ar-lein, a rhaid ceisio mynediad i'r dogfennau eraill yn uniongyrchol | Nid oes gwybodaeth am geisiadau cynllunio'n cael ei chyhoeddi ar-lein |

| **Perfformiad yr Awdurdod** | Oes |
|---|---|
| Mae'r cyfleuster hwn wedi bodoli ers rhai blynyddoedd, ond mae'n mynd yn fwyfwy anodd cael hyd i adnoddau ar ei gyfer. Er bod swyddogion yn sganio'u cynlluniau eu hunain a'r ffurflenni cais ar gyfer ceisiadau cyfredol sydd heb eu penderfynu, caiff y ceisiadau a benderfynwyd eu sganio gan dîm gweinyddol bach sy'n gwasanaethu Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd yn ei chrynswth. Yn sgîl y cyfyngiadau cyllideb sy'n effeithio ar y cyngor, mae toriadau wedi cael effaith ddifrifol ar staff swyddfa gefn, ac maen nhw'n cael trafferth cadw i fyny gyda'r gwaith o sganio'r ffeiliau cynllunio. Yn sgîl hynny mae pryderon ynghylch y gallu i ddiweddaru'r system wrth symud ymlaen. | |

**ADRAN 5 – GORFODI**

| Dangosydd | **15. Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt (lle penderfynwyd a fu achos o dorri'r rheolau cynllunio, ac os felly, lle penderfynwyd a yw camau gorfodi'n briodol) o fewn 84 diwrnod** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen Gwella"** |
| Ymchwilir i fwy nag 80% o'r achosion gorfodi o fewn 84 diwrnod | Ymchwilir i 70-80% o'r achosion gorfodi o fewn 84 diwrnod | Ymchwilir i lai na 70% o'r achosion gorfodi o fewn 84 diwrnod |

| **Perfformiad yr Awdurdod** | 95 |
|---|---|

Dim ond dau swyddog gorfodi sydd gennym ar gyfer y fwrdeistref sirol gyfan, ac yn ystod y cyfnod gwnaeth un ohonynt gais am ymddeoliad cynnar. Caniatawyd y cais hwnnw, a chafodd y gwasanaeth ei ailstrwythuro o ganlyniad. Mae'r ailstrwythuro hwn wedi golygu bod y gwasanaeth gorfodi yn cael ei gefnogi gan un swyddog gorfodi ac Uwch-swyddog Cynllunio a Gorfodi. Mae'r olaf yn sicrhau bod gwell integreiddio rhwng y gwasanaeth gorfodi a'r gwasanaeth ceisiadau cynllunio, yn ogystal â sicrhau bod ymchwiliadau gorfodi cymhleth a cheisiadau dilynol a/neu apeliadau yn derbyn sylw gan yr un uwch-swyddog Gorfodi Cynllunio.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn parhau i gael ei gefnogi gan ein swyddogion rheoli adeiladu, sy'n cyflawni profion gwirio sylfaenol yng nghyswllt datblygu gan berchnogion tai, ac os gallai fod achos o beidio â chydymffurfio, maent yn rhoi gwybod i'r swyddogion gorfodi. Mae'r dasg hon o gadw'r cydbwysedd yn un anodd, gan fod gofyn i'r swyddogion rheoli adeiladu sicrhau incwm sy'n ddigonol i dalu am eu costau gweithredu, ac maent hefyd yn cystadlu yn erbyn y sector

| |
|---|
| preifat. Serch hynny, mae'n llwyddo i'n galluogi i ymchwilio i achosion yn gyflym a gweld nifer uchel o ddatrysiadau o fewn y terfynau amser statudol.<br><br>Ers i Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd gael eu cyfuno, mae'r is-adran orfodi hefyd wedi elwa o berthynas waith agosach gyda chydweithwyr ym maes Iechyd Amgylcheddol, sydd â chyfrifoldebau Gorfodi tebyg sy'n aml yn gorgyffwrdd |

| **Dangosydd** | **16. Amser a gymerwyd ar gyfartaledd ar gyfer camau gorfodi cadarnhaol** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen Gwella"** |
| Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi |

| **Perfformiad yr Awdurdod** | 188 |
|---|---|
| Nid yw'r ffigur hwn yn adlewyrchiad teg o'r gwasanaeth mae'r is-adran yn ei ddarparu. Arweiniodd yr ailstrwythuro sydd wedi digwydd at newid rolau a chyfrifoldebau un o'r swyddi. Bu deilydd y swydd newydd hon, a ymunodd â'r tîm tua diwedd blwyddyn ariannol 2017/18, yn canolbwyntio ar roi gweithdrefnau newydd ar waith a delio gyda'r ôl-groniad wedi i'r swyddog ymadael, yn ogystal â chynorthwyo'r swyddog gorfodi presennol gyda'r llwyth gwaith.<br><br>Hefyd mae Siarter Gorfodi Cynllunio newydd yn ei lle bellach, ac mae'n cyfleu'n eglur i gwsmeriaid y broses sy'n gysylltiedig â gwneud cwyn, ynghyd â'r amserlenni ar gyfer delio â chwyn o'r fath. Cyflwynwyd y siarter hon ochr yn ochr â system gwynion ar-lein, sy'n galluogi achwynwyr i gyflwyno manylion eu cwyn, ynghyd â ffilm a delweddau eraill. Dylai'r system newydd hon alluogi swyddogion i flaenoriaethu cwynion yn y dyfodol, a bydd yn sicrhau bod | |

| |
|---|
| swyddogion yn gallu ymdrin â nifer o gwynion heb orfod gadael y swyddfa, hyd yn oed. Bydd hyn yn eu galluogi i ddefnyddio'u hamser yn fwy cynhyrchiol ac felly wella effeithlonrwydd y gwasanaeth. |

**ADRAN 6 – DANGOSYDDION DATBLYGU CYNALIADWY**

Diben y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yw mesur y cyfraniad mae'r system gynllunio yn ei wneud i ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Defnyddir y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy i fesur cynnydd yn erbyn amcanion cynllunio cynaliadwy cenedlaethol, a nodwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru, a gellir eu defnyddio i ddangos i'n rhanddeiliaid beth yw rôl a chwmpas y system gynllunio wrth gyflawni amcanion ehangach. Bydd yr wybodaeth hefyd yn ddefnyddiol i awdurdodau cynllunio lleol, i'w helpu i ddeall mwy am ganlyniadau'r system gynllunio a helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol.

| **Adroddiadau'r Awdurdod** | |
|---|---|
| Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Awdurdod wedi cyflwyno gwybodaeth lawn ynghylch y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy. | |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **DC1. Yr arwynebedd llawr (metrau sgwâr) o ddatblygiadau economaidd newydd y rhoddwyd ac y gwrthodwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer ar safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd yn ystod y flwyddyn.** |

| Caniatawyd (metrau sgwâr) | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 596 |

| Gwrthodwyd (metrau sgwâr) | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 0 |

Fel y gwelir o'r ffigurau uchod, rydym ni'n gweithio'n rhagweithiol gyda'n cydweithwyr yn yr is-adran Adfywio i gefnogi datblygiad economaidd ar safleoedd a ddyrannwyd. Gwaetha'r modd, oherwydd materion yn ymwneud â dichonolrwydd, fel yr esboniwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae diddordeb datblygwyr yn yr awdurdod yn lleihau o gymharu â'r llynedd.

Rydym ni'n disgwyl am newyddion gan Lywodraeth Cymru yng nghyswllt prosiectau Tasglu'r Cymoedd, ac rydym yn rhagweld y bydd mwy o ddiddordeb mewn datblygu ein cymoedd wrth symud ymlaen. Fodd bynnag, bydd hyn yn her i'r Cynllun Datblygu Lleol o ystyried bod mwyafrif ein safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd oddi mewn i goridor yr arfordir. Mae'n bosib iawn y gallai hynny arwain at gynnydd yn y datblygiadau cyflogaeth a gymeradwyir yng nghymunedau'r cymoedd sy''n dechnegol groes i'r CDLl, ar y sail nad oedd modd cyflawni llawer o'n safleoedd, adeg paratoi a mabwysiadu'r cynllun, oherwydd diffyg cyllid a/neu ddiffyg diddordeb datblygwyr. Nod tasglu'r Cymoedd yw mynd i'r afael â hyn mewn ardaloedd penodol. Ymhellach, cafodd nifer o safleoedd a nodwyd yn flaenorol fel rhai oedd yn briodol o dan gynlluniau cynharach a fabwysiadwyd eu tynnu allan o'r CDLl diweddaraf i'w fabwysiadu oherwydd materion llifogydd. Mae'r Mapiau Cyngor Datblygu (DAM) newydd wedi dangos yn ddiweddar nad yw llifogydd yn effeithio ar nifer o'r safleoedd hyn bellach, ac felly y gallent fod ar gael i gyflawni dyheadau datblygu economaidd y cyngor.

| |
|---|
| Am y rhesymau hyn, rhagwelir y bydd yr arwynebedd llawr yn cynyddu wrth symud ymlaen. |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **DC2. Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiadau adnewyddadwy a charbon isel yn ystod y flwyddyn.** |

| **Caniatawyd (nifer y ceisiadau)** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 1 |

| **Caniatawyd (MW o ynni a gynhyrchwyd)** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 6 |

| |
|---|
| Mae'r cynllun hwn yn ymwneud â datblygiad biomas bychan. Ers i'r cymhorthdal ar gyfer y diwydiant ynni adnewyddadwy leihau, mae nifer y ceisiadau a gyflwynir wedi lleihau'n ddramatig. Ymhellach, bernir erbyn hyn fod y datblygiadau ar raddfa fwy yn Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, ac o'r herwydd nid yr awdurdod fydd yn penderfynu arnynt bellach. Rhagwelir bod y rhain yn debygol iawn o gynyddu yn ystod y cyfnod perfformiad nesaf, gan fod Llywodraeth Cymru yn rhyddhau rhagor o dir i gwmnïau ffermydd gwynt ar gyfer datblygiadau ynni ar raddfa fawr. Mae nifer o bryderon ynghylch rhyddhau rhagor o dir fel hyn. Mae'r trafodaethau cychwynnol gyda chwmnïau ffermydd gwynt yn awgrymu, er mai 120m a 145m fu uchafswm maint tyrbinau cynlluniau blaenorol, fod angen i'r tyrbinau gynyddu i 200m o uchder wrth symud ymlaen, er mwyn mwyafu effeithlonrwydd y safleoedd. Bydd y cynnydd hwn yn cael effaith aruthrol ar y tirlun, ac felly bydd angen i Lywodraeth Cymru adolygu ffiniau'r Ardaloedd Chwilio Strategol er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn addas at y diben. Gallai hefyd effeithio ar y gallu i gyflawni cynlluniau o'r fath, gan y bydd tyrbinau mwy yn anoddach eu cludo. |

Er gwaethaf yr uchod, yn ogystal â thon newydd bosibl o ddatblygiadau ffermydd gwynt, ymddengys bod y diwydiant yn canolbwyntio o'r newydd ar gynhyrchu trydan o fewn ac ar yr adeiladau lle bydd angen defnyddio'r ynni yn y pen draw. Bydd cydleoli cynhyrchu a defnyddio ynni yn lleihau'r ynni a gollir ac yn helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn achos y defnyddwyr terfynol. Ar hyn o bryd mae Castell-nedd Port Talbot yn peilota un cynllun o'r fath, sef 'Cartrefi sy'n Bwerdai' fel rhan o brosiect Bargen y Ddinas. Er bod y cynlluniau hyn yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy, nid ymddengys eu bod yn cyfrif tuag at y targedau datblygu cynaliadwy o dan y system gynllunio.

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **DC3. Nifer yr Anheddau y rhoddwyd Caniatâd Cynllunio ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn.** |

| **Tai Marchnad (Nifer yr Unedau)** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 218 |

| **Tai fforddiadwy (nifer yr unedau)** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 35 |

Mae'r ffigurau hyn yn ymwneud â nifer yr anheddau a gymeradwywyd. O ystyried pryderon cenedlaethol ynghylch bancio tir, bydd rhaid aros i weld pryd caiff yr unedau hyn eu datblygu, os o gwbl. Fodd bynnag, mae'r ffigurau'n amlygu bod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn weithredol yn y Fwrdeistref Sirol hon. Yn wir, yn aml nhw yw'r unig ddatblygwyr sydd â diddordeb ac sy'n barod i gyflwyno datblygiadau mewn ardaloedd sydd ar gyrion dichonolrwydd.

Mae'r mater hwn wedi cael sylw manwl yn gynharach yn yr adroddiad hwn, ac nid oes angen ailadrodd pryderon ynghylch dichonolrwydd a bancio rhagor o dir.

| Dangosydd | **DC4. Caniatâd Cynllunio a roddwyd ac a wrthodwyd ar gyfer datblygu ar ardaloedd gorlifdir C1 ac C2 yn ystod y flwyddyn.** |
| --- | --- |

| **Nifer yr unedau preswyl (a hefyd yr hectarau o unedau amhreswyl) y RHODDWYD caniatâd iddynt** | |
| --- | --- |
| **Data'r Awdurdod** | 12 o Anheddau preswyl a 3ha o dir amhreswyl |

| **Nifer yr unedau preswyl (a hefyd yr hectarau o unedau amhreswyl) y GWRTHODWYD caniatâd iddynt ar sail perygl llifogydd** | |
| --- | --- |
| **Data'r Awdurdod** | 2 |

Mae'r achosion o gymeradwyo y cyfeirir atynt uchod yn ymwneud yn bennaf ag un safle oedd wedi'i ddyrannu yn y CDLl. Cynhaliodd y Cyngor Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol ar gyfer canol tref Port Talbot ac ardal Glannau'r Harbwr. Dangosodd y darn hwn o waith fod y model a ddefnyddiwyd gan CNC yn ddiffygiol, gan fod cyfrifiad anghywir wedi'i ddefnyddio i asesu effaith pontydd dros afon Afan. Ar ôl newid hynny, roedd effaith llifogydd ar Bort Talbot yn sylweddol lai. Cefnogwyd y cais hefyd gan Asesiad Canlyniadau Llifogydd manwl, a dderbyniwyd ac a gefnogwyd gan CNC.

| Dangosydd | **DC5. Yr ardal o dir (hectarau) y rhoddwyd Caniatâd Cynllunio iddo ar gyfer datblygu ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol a tir maes glas yn ystod y flwyddyn.** |
| --- | --- |

| Tir a ddatblygwyd yn flaenorol (hectarau) | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 7 |

| Tir maes glas (hectarau) | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 4 |

Mae'r ffigurau hyn yn is na'r rhai a ragwelwyd o ddilyn y llwybr oedd yn rhan o'n dogfennau ategol i'r CDLl. Dichonolrwydd yw'r rheswm am hyn, gan fod gwerth tir yn dal yn isel, ond mae costau adeiladu'n codi'n gyflym.

Yn ogystal â'r uchod, mae llawer o'n tir maes llwyd a ddyrannwyd wedi'i leoli yng Nghoed Darcy. Mae'r cyngor a St Modwen, sy'n berchen ar y safle, yn dal i drafod yn fanwl newid y cytundeb A106 a luniwyd yn wreiddiol yn ôl yn 2008. Bydd y newidiadau hyn yn sicrhau bod seilwaith hanfodol yn dal i gael ei darparu i gynnal y safle strategol bwysig hwn, ond bydd y sbardunau'n newid.

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **DC6. Yr ardal o fannau agored cyhoeddus (hectarau) a fyddai'n cael ei cholli a'i hennill o ganlyniad i ddatblygiadau y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt yn ystod y chwarter.** |

| Man Agored a gollwyd (hectarau) | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 0 |

| Man Agored a enillwyd (hectarau) | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 0.29ha |

| |
|---|
| Yn hytrach na chreu mannau agored newydd helaeth, gofynnir i ddatblygwyr gyfrannu at wella cyfleusterau sydd eisoes yn bodoli, sydd wedi dirywio gyda threigl y blynyddoedd oherwydd diffyg cyllid, a diffyg buddsoddi yn sgîl hynny.<br><br>Fodd bynnag, defnyddir y CCA Rhwymedigaethau Cynllunio i sicrhau cyfraniadau ariannol tuag at gyfleusterau chwarae ffurfiol ac anffurifol, cyfleusterau chwaraeon a rhandiroedd. Yn achos y cynlluniau mwy, mae darpariaeth ar y safle yn dal i gael ei thrafod, ond yn aml mae hynny'n methu am resymau dichonolrwydd.<br><br>Yn ogystal â'r uchod mae'r cyngor yn gweithio gyda phartneriaid ar hyn o bryd i gyflawni Seilwaith Werdd mewn ardaloedd lle cydnabyddir bod diffyg. Adroddir ar ganlyniad y gwaith hwn y flwyddyn nesaf. |

| **Dangosydd** | **DC7. Cyfanswm y cyfraniadau ariannol (£) y cytunwyd arnynt o ddatblygiadau newydd y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt yn ystod y chwarter er mwyn darparu seilwaith cymunedol.** |
|---|---|

| Sicrhawyd trwy gytundebau Adran 106 (£) | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 209,964 |

| Sicrhawyd trwy'r Ardoll Isadeiledd Cymunedol (CIL) (£) |
|---|

| **Data'r Awdurdod** | 0 |
|---|---|

Mae hwn yn ostyngiad sylweddol o'i gymharu â'r llynedd, ac mae'n adlewyrchu'r nifer is o gynlluniau sy'n cael eu cyflwyno ac sy'n ddichonadwy.

Am resymau dichonoldeb nid yw'r cyngor yn bwriadu symud ymlaen gyda CIL ar hyn o bryd.